Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD IAU, 28 HYDREF 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN,** AM **10.30 YB, DYDD GWENER, 5ED TACHWEDD, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*[NODER: OHERWYDD RHEOLIADAU CADW PELLTER CYMDEITHASOL, GALL UCHAFSWM O 6 UNIGOLYN MYNYCHU'R ORIEL GYHOEDDUS. GOFYNNIR I AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO BOD YN BRESENNOL YN BERSONOL GYSYLLTU Â'R SWYDDOG GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A RESTRIR ISOD, HEB FOD YN HWYRACH NA 10.00 Y.B. AR DDYDD MERCHER, 3 TACHWEDD 2021 I GADW SEDD]*

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**


| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

## PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
## 14 AELOD

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | KEN HOWELL | (Plaid Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | JOHN PROSSER | (Llafur) |
| 3. | CYNGHORYDD | JIM JONES | (Annibynnol) |

**CYNGOR SIR CEREDIGION - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | LLOYD EDWARDS | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | KEITH EVANS | (Annibynnol) |
| 3. | CYNGHORYDD | ALUN LLOYD JONES | (Plaid Cymru) |

**CYNGOR SIR PENFRO - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | MICHAEL JAMES | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | STEPHEN JOSEPH | (Annibynnol heb gysylltiad) |
| 3. | CYNGHORYDD | ROBERT SUMMONS | (Ceidwadwyr) |

**CYNGOR SIR POWYS - 3 AELOD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | DAVID O. EVANS | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | LES GEORGE | (Plaid Geidwadol Cymru) |
| 3. | CYNGHORYDD | WILLIAM POWELL | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |

**AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG - 2 AELOD**

1. YR ATHRO IAN ROFFE
2. MRS HELEN MARGARET THOMAS

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL.**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANT.**

3. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30AIN GORFFENNAF, 2021.** 5 - 10

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI).**

5. **CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD**

**5 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD HELEN THOMAS** 11 - 14

“Bydd y Comisiynydd yn ymwybodol bod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi adroddiad ar 17 Medi yn tynnu sylw at ddull anghyson yr Heddlu o fynd i'r afael â thrais tuag at fenywod a merched, ac yn annog yr Heddlu i flaenoriaethu'r mater. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 5 argymhelliad i wella'r sefyllfa. A fyddai'r Comisiynydd yn gallu cadarnhau pa gamau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn llawn? Sut y bydd yn monitro cynnydd dros amser i sicrhau bod hyn yn parhau i gael ei weithredu yn y dyfodol?”

**5 .2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD LES GEORGE** 15 - 20

“Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd AHGTAEM adroddiad a oedd yn asesu’r cynnydd a wnaed gan heddluoedd yn genedlaethol o ran gweithredu’r argymhellion o’i adroddiad yn 2019 ar ymateb yr Heddlu i dwyll. Mae’r adroddiad newydd hwn yn nodi nad yw’r holl argymhellion gwreiddiol wedi’u gweithredu ac nad oes digon wedi newid. Gan hynny, mae’r adroddiad newydd hwn yn gwneud tri argymhelliad pellach. Mae dau ohonynt wedi’u cyfeirio’n benodol at Brif Gwnstabliaid. Dylid fod wedi cydymffurfio â’r ddau argymhelliad erbyn y cyfarfod hwn. A all y Comisiynydd gadarnhau bod DyfedPowys wedi cydymffurfio’n llwyr â’r holl argymhellion yn y ddau adroddiad sy’n berthnasol iddo? Sut mae’r Comisiynydd wedi bodloni ei hun mai dyma’r sefyllfa? Sut fydd y Comisiynydd yn parhau i fonitro cynnydd gan yr heddlu yn hyn o beth er mwyn sicrhau nad yw’n ffaelu’r dioddefwyr twyll yn y dyfodol?”

6. **CWESTIWN Â RHYBUDD I'R PANEL GAN MR. R. HUISH** 21 - 22

“Gomisiynydd, rydych yn ymwybodol o'r holl honiadau o dwyll ac arferion llwgr a wnaed yn erbyn nifer o fanciau'r Stryd Fawr sy'n deillio o arferion bancio yn y gorffennol. O safbwynt y dioddefwyr, nid yw'n ymddangos bod Heddlu Dyfed-Powys yn barod i ymchwilio i honiadau o'r fath neu nad oes ganddo'r adnoddau i wneud hynny'n ddigonol. A yw'r Comisiynydd yn cytuno ei bod yn bwysig bod gan y rheiny sydd wedi dioddef troseddau o'r fath ffydd yng ngallu'r heddlu i ymchwilio'n drylwyr i'w cwynion? O ystyried cyfrifoldeb y Comisiynydd i gefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y

llysoedd, a fydd e'n cefnogi ceisiadau’r rheiny sydd wedi dioddef twyll o'r fath yn ardal Dyfed-Powys am ddefnyddio Heddlu allanol sydd â mwy o brofiad o ymdrin ag achosion o'r fath i ymchwilio i'r cwynion hyn? Os nad yw'n cytuno ynghylch defnyddio Heddlu allanol, sut y bydd yn cefnogi'r dioddefwyr hyn?”


| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU.** | 23 - 54 |
| **8.** | **PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD.** | 55 - 62 |
| **9.** | **TREFNIADAU ARIANNU GRANT Y COMISIYNYDD.** | 63 - 72 |
| **10.** | **PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD.** | 73 - 98 |

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

Dydd Gwener, 30 Gorffennaf 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lloyd-Jones (Cadeirydd)

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:**
Y Cynghorwyr J.K. Howell, T.J. Jones and J.G. Prosser

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
Y Cynghorwr K. Evans

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
Y Cynghorwyr M. James and R. Summons

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
Y Cynghorwyr D. Evans, L. George, S. Joseph and W. Powell;

**Aelodau Annibynnol:**
Yr Athro I. Roffe
Mrs H. Thomas

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:**
Mr. D. Llywelyn, Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
Mrs. C. Morgans, Pennaeth y Staff;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 3.15 yp**

## 1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PANEL

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**
**1.1 benodi'r Cynghorydd Alun Lloyd-Jones yn Gadeirydd y Panel am y flwyddyn galendr sydd i ddod;**
**1.2 penodi'r Athro Ian Roffe yn Is-gadeirydd y Panel am y flwyddyn galendr sydd i ddod.**

## 2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Edwards (Cyngor Sir Ceredigion) a R. Summons (Cyngor Sir Penfro).

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANT

| Aelod o'r Pwyllgor | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H. Thomas – Aelod Cyfetholedig | 12 - Penodi Prif Gwnstabl | Roedd ei mab yn gadeirydd y panel cyfweld allanol. |

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19EG CHWEFROR, 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2021 gan eu bod yn gywir.**

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

Ni chodwyd unrhyw faterion yn y cyfarfod.

## 6. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD

### 6.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS

“Pa gamau y mae'r Comisiynydd yn eu cymryd yn ei drafodaethau â'r Prif Gwnstabl Dros Dro ynghylch lles a llesiant Swyddogion sydd wedi bod yn ymwneud yn benodol â Phlismona rheng flaen yn ystod Pandemig Covid-19?”

**Ymateb y Comisiynydd:**
Dywedodd y Comisiynydd fod effaith Covid wedi bod yn heriol i bob gwasanaeth a mynegodd ei ddiolch i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd am gadw'r gymuned yn ddiogel. Dywedwyd pa mor bwysig ydoedd i gefnogi staff a bod llesiant staff yn hollbwysig i'r heddlu.

Dywedwyd bod y galw ar yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans yn fwy nag erioed ym mis Awst 2020 a bod hynny wedi digwydd eto ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf eleni. Cydnabuwyd bod hyn yn rhoi staff o dan bwysau gyda chynnydd mewn oriau gwaith, ond roedd lles staff yn flaenoriaeth i'r tîm arwain a nodwyd bod mentrau fel Mercher Llesiant wedi'u cyflwyno a bod cynlluniau tymor canolig a thymor hwy ar waith i ymdrin â hyn. Byddai staff hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio gwyliau blynyddol o fis Medi ymlaen pan ragwelir gostyngiad yn y galw.

### 6.2. CWESTIWN GAN YR ATHRO IAN ROFFE

"Mae pandemig Covid wedi effeithio ar bob agwedd ar fywyd, gwaith a phlismona yn Nyfed Powys, pa agweddau ar ymateb y Comisiynydd i Covid sydd fwyaf arwyddocaol yn ei farn ef y byddai am dynnu sylw atynt a pha gynlluniau sydd gan y Comisiynydd o ran ymdrin â Covid yn y tymor byr a’r tymor canolig?”

**Ymateb y Comisiynydd:**
Dywedodd y Comisiynydd fod adferiad yn dilyn covid yn gyfle i gyrraedd targedau cynaliadwyedd o ganlyniad i'r gostyngiad mewn teithio a'r defnydd o dechnoleg. Dywedwyd ei bod yn bwysig croesawu'r ffordd newydd o weithio drwy ddefnyddio technoleg. Dywedwyd wrth y Panel fod canolfannau amlasiantaethol ar waith a thynnodd sylw at bwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio o bell a staff yn dychwelyd i'r pencadlys.

O ran ffyrdd hyblyg o weithio, dywedodd y Comisiynydd y byddai hyn yn hybu llesiant staff pe bai'n cael ei wneud yn gywir. Cydnabuwyd bod rhywfaint o flinder

'rhithwir' a bod sicrhau cydbwysedd rhwng ffyrdd rhithwir a ffisegol o weithio yn allweddol.

Dywedwyd bod cyllid ychwanegol tymor byr wedi'i ddarparu ond bod angen cyllid a chynlluniau tymor hwy. Byddai cyllid yn gonglfaen i ddarparu gwasanaethau a nodwyd bod yr heddlu'n ceisio cyfnod cynaliadwyedd o 3 blynedd.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Bu'r Panel yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2020/21 drafft y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Wrth gyflwyno ei adroddiad drafft, dywedodd y Comisiynydd fod Covid a gohirio Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2020 wedi newid y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol yn sylweddol.

Tynnodd y Comisiynydd sylw at y gwaith a wnaed mewn perthynas â chanolfan llety lloches Penalun a sut y cafodd y ganolfan ei chau yn dilyn lobïo llwyddiannus gan y Swyddfa Gartref. Mynegodd aelodau'r Panel fod amodau byw'r ganolfan wedi eu harswydo.

Yn gyffredinol, roedd y Panel yn croesawu'r adroddiad a chodwyd y materion canlynol:

- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Comisiynydd fod Rheoli Troseddwyr yn Integredig yn anelu at gefnogi'r troseddwyr mwy cyffredin rhag troseddu eto. Roedd y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr ar gyfer troseddwyr tro cyntaf mewn ymgais i'w cadw allan o'r system cyfiawnder troseddol.
- Gofynnwyd a oedd cynlluniau i gynyddu cyllid ar gyfer y Gronfa Strydoedd Diogelach. Dywedodd y Comisiynydd mai hwn oedd y 3$^{ydd}$ cais am y gronfa tymor byr ac mai Llanelli oedd yr unig ardal yn yr heddlu a oedd yn bodloni'r meini prawf. Rhagwelid y byddai'r Swyddfa Gartref yn parhau i gyllido'r cynllun.
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw beth penodol ynghylch troseddau hiliol a chaethwasiaeth fodern. Dywedodd y Comisiynydd fod y rhain yn faterion gweithredol ac felly na chyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad blynyddol. Dywedodd hefyd fod rôl y Comisiynydd yn canolbwyntio'n bennaf ar droseddau casineb ond rhoddodd sicrwydd bod yr heddlu'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ynghylch caethwasiaeth fodern a bod troseddau hiliol yn flaenoriaeth allweddol i'r heddlu.
- Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ynghylch cyfiawnder adferol, dywedodd y Comisiynydd fod yr heddlu wedi ymrwymo i gyfiawnder adferol ac y bu cynnydd mewn atgyfeiriadau.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r gweithgor cynaliadwyedd, dywedodd y Comisiynydd fod y proffil gwariant wedi'i ohirio oherwydd covid ac amodau'r farchnad. Yn ogystal, cynghorwyd y panel fod y deunyddiau sydd ar gael yn broblem.
- Gofynnwyd a oedd darpariaeth ddigonol ar gael gan SARC i ddioddefwr cam-drin rhywiol. Dywedodd y Comisiynydd fod digon o gyfleusterau ar gael yn yr ardal, ond roedd hyn yn mynd i newid o ganlyniad i newid i system o ganoli gan y Bwrdd Iechyd. Bydd canolfan ym Mronglais a Bae Abertawe ond nid oedd yr amserlen ar gyfer canoli wedi'i diffinio eto.

Mynegwyd pryder ynghylch canoli a'r effaith y byddai teithio yn ei chael ar ddioddefwyr.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd estyn diolch a gwerthfawrogiad y Panel i'w holl staff a staff yr heddlu am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad blynyddol drafft.**

## 8. COFNODI TROSEDDAU Y RHODDWYD GWYBOD AMDANYNT

Ystyriodd y Panel adroddiad yn manylu ar ymateb y Comisiynydd i'r hysbysiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) y bydd yn cyhoeddi Achos Pryder mewn perthynas ag Uniondeb Data Troseddu (CDI) ar 7 Mai 2021.

Dywedodd y Comisiynydd fod yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i liniaru'r materion a nodwyd.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Comisiynydd fod yr heddlu'n defnyddio system rheoli cofnodion fewnol ond ei fod wedi symud i system rheoli cofnodion o'r enw Niche a oedd eisoes yn cael ei defnyddio gan heddluoedd eraill. Cydnabuwyd na fyddai system rheoli cofnodion yn datrys yr holl broblemau a nodwyd a'i bod yn bwysig bod gan y staff, ar y pwynt cyswllt cyntaf, y sgiliau priodol i raddio'r galwadau'n gywir.

Gofynnwyd a roddwyd ystyriaeth i ddefnyddio dull tebyg i Swydd Lincoln o ran ymgynghoriadau cyhoeddus a thrydydd sector. Dywedodd y Comisiynydd yr ymgynghorwyd â phartneriaid, fodd bynnag, nid i gyd ar yr un pryd. Dywedodd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 9. IECHYD MEDDWL A PHLISMONA

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2020-2021, penderfynodd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gynnal ymchwiliad i sut yr aeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i'r afael â mater Iechyd Meddwl a Phlismona. Sefydlodd y panel is-grŵp i gynnal yr ymchwiliad hwn.

Ystyriodd y Panel yr adroddiad yn manylu ar ganlyniad yr ymchwiliad. Dywedwyd wrth y Panel fod yr is-grŵp wedi'i argyhoeddi bod sylw dyledus wedi'i roi i Iechyd Meddwl a Phlismona yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu.

Dywedwyd wrth y Panel fod lle i wella o hyd ond roedd o'r farn bod Heddlu Dyfed-Powys cystal â heddluoedd eraill ac y byddai cynnal gwaith partneriaeth yn helpu hyn.

Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn derbyn argymhellion yr adroddiad yn llwyr a phwysleisiodd fod y mater yn flaenoriaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

[**SYLWER**: Cafodd y Pwyllgor egwyl am 12.50pm, cyn ailgynnull am 2.00pm.]

## 10. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd yn ystod y cyfnod rhwng 9 Chwefror 2021 a 22 Gorffennaf 2021.

Mewn ymateb i gais i'r panel weld fideo'r Llysgennad Ieuenctid ar Brofiadau Pobl Ifanc o'r Heddlu, dywedodd y Comisiynydd y gellid gwneud trefniadau i'r Panel weld y fideo yn yr Hydref pan oedd cyfyngiadau covid wedi'u llacio.

Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ynghylch prynu tir yn Nafen, dywedodd y Comisiynydd fod y prosiect ar hyn o bryd yng ngham 5 RIBA ac yn agos at benderfynu ar y pris terfynol a'r contract masnachol ar gyfer cyflawni. Byddai amserlen fanylach ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 11. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

Nododd y Panel yr adroddiad perfformiad mewn perthynas â'r Protocol Plismona.

Gan fod yr adroddiad yn ddyddiedig Chwarter 4 2020/21, cytunwyd y byddai adroddiad mwy cyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 12. PENODI PRIF GWNSTABL

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd H. Thomas wedi datgan buddiant ar ddechrau'r eitem hon].

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Richard Lewis, sef yr ymgeisydd oedd yn cael ei ffafrio gan y Comisiynydd ar gyfer swydd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.

Wedi hynny, derbyniodd y Panel adroddiad mewn perthynas â phenodi'r ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.

Yna bu'r Panel yn cyfweld â Mr Richard Lewis gan ofyn cyfres o gwestiynau ynghylch ei fedrusrwydd proffesiynol er mwyn cloriannu ei addasrwydd i gyflawni'r rôl, yn dilyn hyn cytunwyd i nodi penodiad Mr Lewis i rôl Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys

Ar ran y Panel, diolchodd y Cadeirydd hefyd i Claire Parmenter, y Prif Gwnstabl Dros Dro, am ei gwaith ar gyfer heddlu Dyfed-Powys.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi penodiad Mr Richard Lewis fel Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a'i groesawu i'r rôl.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

## Ymateb i Gwestiynau a Gyflwynwyd

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Daw'r adroddiad arolwg hwn ar adeg pan fo trais yn erbyn menywod a merched yn genedlaethol yn cael blaenoriaeth mewn llawer o drafodaethau, ac yn gwbl briodol felly.

Rwy’n croesawu ffocws AHGTAEM ar y mater hwn ar hyn o bryd, ond mae’n rhaid i ni gydnabod bod trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) wedi bod yn flaenoriaeth i mi, i Heddlu Dyfed-Powys ac i blismona yng Nghymru ers peth amser bellach.

Mae Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Ddyfed-Powys fel y'i llywodraethir gan fy Nghynllun Heddlu a Throseddu presennol, Strategaeth Rheoli'r Heddlu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Gallaf gadarnhau y bydd hefyd i’w weld yn amlwg yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd, sydd i'w gyhoeddi’n fuan.

Rwy'n cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'm cyd-Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ynglŷn â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol (VAWDASV) a sut y gallwn ymhestyn ein heffeithiolrwydd i’r eithaf yng Nghymru. Rydym wedi cytuno i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar Lasbrint VAWDASV i Gymru. Gyda'n gilydd, rydym hefyd wedi lobïo'r Swyddfa Gartref o ran cyfle a gollwyd yn y Bil Plismona: Fel y'i drafftiwyd, nid yw'r Bil Plismona yn cynnwys trais domestig a cham-drin a thrais rhywiol yn benodol ac felly mae'n colli'r cyfle i gynyddu'r amddiffyniad a roddir i ddioddefwyr a goroeswyr y mathau hyn o drais a cham-drin.

Mae trais yn erbyn menywod a merched wedi bod yn flaenoriaeth i’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ers cryn amser, ac mae i’w weld fel llinyn arian ar draws yr holl flaenoriaethau yn y rhaglen waith bresennol. Yn ogystal â hyn, mae dioddefwyr trais rhywiol a throseddau rhywiol yn ffrwd waith benodol o fewn y flaenoriaeth dioddefwyr a thystion. Mae fy nghynllun cyflawni Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn adlewyrchu hyn ac yn canolbwyntio ar ddarparu safleoedd tystiolaeth o bell a chyfleusterau llys i ddioddefwyr VAWDASV.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ddatblygu'r Hwb Bregusrwydd, sy'n rhoi cymorth arbenigol i swyddogion sy'n delio â digwyddiadau trais yn y cartref ac yn helpu i wella'r gwasanaeth i ddioddefwyr. Mae gweithgarwch diweddar yn cynnwys rôl arbenigol a ariennir gan grant o fewn yr Hwb ar gyfer gwella'r ffordd y rheolir cam-drin domestig.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer yr ymchwiliadau sydd ar agor am fwy na 12 mis.

Mae prosiect O’r Dechrau i’r Diwedd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ganolbwyntio ar roi dioddefwyr wrth wraidd popeth drwy ddeall y galw, gwella

prosesau a dylanwadu ar ddiwylliant er mwyn eu galluogi i fod yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae fy swyddfa wedi sicrhau arian ychwanegol o dros £600,000 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cynyddu'r gefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ardal Dyfed-Powys. Bydd y cyllid yn helpu i gefnogi dioddefwyr sydd wedi profi Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol ar unrhyw adeg yn eu bywyd. Bydd y cymorth annibynnol arbenigol ychwanegol a fydd ar gael yn awr yn cael ei ddarparu gan ystod eang o sefydliadau cymorth yn y gymuned, yn dilyn cynnydd yn y galw am gymorth. Bydd naw rôl ychwanegol yn cael eu creu a bydd hyfforddiant arbenigol ar gyfer gweithwyr proffesiynol lleol hefyd yn cael ei ddarparu, gyda'r nod o feithrin capasiti o fewn llochesi cam-drin domestig fel ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, er mwyn galluogi plant i gael mynediad at ymyriadau cynnar gan oedolion y maent yn ymddiried ynddynt a hynny mewn man diogel. Rwy’n falch o ddweud bod yr arian ychwanegol hwn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad mewn gwasanaethau i ddioddefwyr i dros £1.7miliwn yn ystod 2021/22, o gyfuno cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyllid craidd o'm swyddfa i. Rwy'n parhau i ariannu nifer o wasanaethau cymorth i bobl y mae cam-drin domestig, trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol yn effeithio arnynt ledled ardal yr heddlu.

Mae fy swyddfa hefyd wedi cyflwyno cais yn ddiweddar i Gronfa Diogelwch Menywod yn y Nos y Swyddfa Gartref er mwyn darparu dulliau arloesol o greu mannau diogel i fenywod yn ein cymunedau, yn enwedig economi’r nos a chydnabod ein poblogaethau dros dro o fyfyrwyr ac ymwelwyr sydd ar eu gwyliau. Disgwylir canlyniad y cyflwyniad hwn ym mis Tachwedd.

Bydd gwaith yn parhau i hyrwyddo Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys, a reolir gan fy nhîm, er mwyn sicrhau y ceisir adborth yn uniongyrchol gan ddioddefwyr o ran y gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae llawer o gyfleoedd i ddioddefwyr ymuno â'r Fforwm wedi derbyn cyhoeddusrwydd, gan gynnwys drwy ein gwasanaethau VAWDASV ac yn ddiweddar drwy Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr lle dosbarthwyd e-bost i ddioddefwyr o'r ardal leol a ymatebodd i Arolwg Dioddefwyr blynyddol y Comisiynydd Dioddefwyr. Yn ddiweddar, bu aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn bwydo'n ôl ar eu profiad o effaith COVID-19 ar wasanaethau cymorth i ddioddefwyr, ac yn fuan, gofynnir iddynt roi adborth ar daflen Heddlu Dyfed-Powys sy'n rhoi arweiniad a chyngor arbenigol i ddioddefwyr troseddau rhywiol.

Yn ogystal, mae gwaith ar y gweill i archwilio'r sefyllfa'n lleol o ran pa mor ddiogel y mae menywod a merched yn teimlo ar lefel leol, a pha gamau y gallaf eu cymryd i sicrhau ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei lansio ym mis Tachwedd 2021.
Ar hyn o bryd mae fy nhîm yn gweithio ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys i hyrwyddo'r pecyn cymorth newydd StreetSafe sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd. Mae ar gael ar holl wefannau'r bob un o’r Heddluoedd ac mae'n wasanaeth er mwyn i aelodau'r cyhoedd ddweud wrth Heddlu Dyfed-Powys, yn ddienw, am fannau cyhoeddus lle maent wedi teimlo'n anniogel, oherwydd materion amgylcheddol, e.e. goleuadau stryd, adeiladau sydd wedi’u gadael yn

wag neu fandaliaeth a/neu oherwydd ymddygiadau, e.e. cael eu dilyn neu eu cam-drin yn eiriol.

O ystyried canfyddiad penodol adroddiad AHGTAEM bod y *"Defnydd o bwerau amddiffynnol (fel Gorchmynion Diogelu Rhag Trais Domestig (DVPOs), Hysbysiadau Amddiffyn RhagTrais Domestig (DVPNs) a Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio (SPOs)), yn anghyson, ac nid oes esboniad am hyn",* fe roddir ystyriaeth ynghylch a fyddai'n briodol ac yn addas i aelodau fy Mhanel Sicrhau Ansawdd graffu ar ddefnydd Heddlu Dyfed-Powys o bwerau diogelu.

Ar yr un pryd, mae gweithgarwch craffu a gynhaliwyd yn ddiweddar gan AHGTAEM, y Coleg Plismona a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu wedi arwain at yr argymhelliad y dylai Prif Gwnstabliaid adolygu, ac os oes angen, adnewyddu eu polisi ar DVPNs a DVPOs er mwyn sicrhau bod llywodraethu a chyfathrebu clir ar gyfer blaenoriaethu eu defnyddio’n effeithiol. Rwyf wedi gofyn am dystiolaeth fanwl gan Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â phob un o'r argymhellion yn adroddiad AHGTAEM ac fe'm sicrhawyd gan y camau a gymerwyd hyd yma a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol. Byddaf yn ceisio sicrwydd parhaus o gyflawniad yr allbynnau allweddol sy'n ymwneud â hyn.

Yn benodol mewn perthynas â gweithredu'r canfyddiadau a'r argymhellion a nodir yn adroddiad AHGTAEM ar ymateb yr Heddlu i drais yn erbyn menywod a merched, rwyf wedi gofyn am sicrwydd gan y Prif Gwnstabl ynghylch gwaith cyfredol a pharhaus sy’n ymwneud ag argymhellion yr adroddiad. Fe ddywedwyd wrthym bod Strategaeth Heddlu’n cael ei datblygu ar gyfer rheoli argymhellion yr adroddiad. Bydd pennaeth Bregusrwydd Heddlu Dyfed-Powys yn arwain ar y darn hwn o waith, a bydd yr argymhellion yn cael eu monitro a'u trafod ym Mwrdd Bregusrwydd Strategol Heddlu Dyfed-Powys. Mae fy Nghyfarwyddwr Comisiynu a’m Hymgynghorydd Polisi ac Ymgysylltu ill dau’n eistedd ar y Bwrdd Bregusrwydd Strategol, a byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi o ran y cynnydd a adroddwyd yn erbyn yr argymhellion. Byddant hefyd yn gallu gofyn cwestiynau i'r Bwrdd ar fy rhan.

Byddaf yn parhau i graffu ar ddiweddariadau cynnydd gan y Prif Gwnstabl Parmenter a'i huwch dîm rheoli. Yn ogystal â hyn, mae fy Nghynghorydd Ansawdd a Sicrwydd yn mynychu cyfarfod misol gyda Thîm AHGTAEM Heddlu Dyfed-Powys, lle rhoddir diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion.

O ran y materion sydd bellach yn bodoli o ganlyniad i lofruddiaeth drasig Sarah Everard, mae argymhellion AHGTAEM, wrth gwrs, yn gofyn am arweiniad cryf er mwyn ailddatgan y safonau llym a arferir gan Wasanaeth yr Heddlu yn y DU a dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau treisgar, yn enwedig pan gânt eu defnyddio yn erbyn menywod. O ganlyniad i, ac yn ogystal â'r trefniadau Llywodraethu a amlinellwyd eisoes ar gyfer yr argymhellion, bydd y Prif Gwnstabl yn penodi Prif Swyddog Arweiniol ar gyfer y maes gwaith hwn er mwyn sicrhau bod ganddi'r lefel ddigonol o gymorth a chraffu wrth symud ymlaen.

Mae'r Prif Gwnstabl hefyd wedi ysgrifennu'n uniongyrchol at Syr Tom Winsor yn dweud y byddai'n fanteisiol i'r Llywodraeth ddarparu cyllid parhaus, nid yn unig ar gyfer plismona, ond i sectorau cyhoeddus eraill, ar gyfer gwneud newid

gwirioneddol ym mhob agwedd ar fywyd er mwyn cyflawni egwyddorion strategaeth y Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod.

Rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu argymhellion AHGTAEM a ffocws parhaus plismona yn y maes hwn. Hyderaf fod yr uchod yn rhoi sicrwydd ynghylch ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys i fynd i'r afael â'r argymhellion, yn ogystal â'm gwaith craffu a'm goruchwyliaeth barhaus o'r maes hwn.

Bydd y wybodaeth uchod yn ymddangos yn fy ymateb ffurfiol i adroddiad arolwg AHGTAEM ar 'ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched', a fydd yn cael ei gyflwyno ar 12 Tachwedd.

## Ymateb i Gwestiynau a Gyflwynwyd

### Ymateb SCHTh

Daeth eich cwestiwn mewn dwy ran, a byddaf yn mynd i'r afael ag ef felly:

1. 'A all y Comisiynydd gadarnhau bod Dyfed-Powys wedi cydymffurfio'n llwyr â'r holl argymhellion yn y ddau adroddiad sy'n berthnasol iddo? Sut mae'r Comisiynydd wedi bodloni ei hun mai dyma'r sefyllfa.'

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad AHGTAEM (Adroddiad Sbotolau: Adolygiad o Dwyll: Amser i Ddewis. Ailymweld ag Archwiliad Twyll 2018), gofynnais am adborth uniongyrchol gan yr Heddlu a Rheolwr y Tîm Troseddau Economaidd o ran yr argymhellion penodol a wnaed ac rwy'n hyderus ein bod ni fel Heddlu nid yn unig yn bodloni'r gofynion, ond yn rhagori arnynt.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at yr argymhellion yr oedd AHGTAEM dal yn ystyried fel rhai sydd heb eu cyflawni yn dilyn yr adroddiad gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2019. Mae sefyllfa Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â'r argymhellion sy'n berthnasol i'r heddlu fel a ganlyn:

***'Erbyn 30 Medi 2019, dylai prif gwnstabliaid gyhoeddi polisi eu heddlu ar gyfer ymateb i honiadau o dwyll ac ymchwilio iddynt (mewn perthynas â galwadau am wasanaeth a lledaeniadau Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll ar gyfer gorfodi).'***
Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cwblhau hyn ac mae'r polisi wedi'i gyhoeddi.

***'Erbyn 30 Medi 2021, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod eu heddluoedd yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gydlynydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Troseddau Economaidd ynghylch galwadau am wasanaeth sy'n gysylltiedig â thwyll.'***

***'Erbyn 31 Hydref 2021, dylai prif gwnstabliaid fabwysiadu'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019 gan Gydlynydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Troseddau Economaidd, a oedd wedi'i anelu at wella'r wybodaeth a roddir i ddioddefwyr wrth adrodd am dwyll.'***
Ymgymerodd Heddlu Dyfed-Powys ag adolygiad o'u prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau presennol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae arferion presennol yn rhagori ar yr argymhellion hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt wneud newidiadau mân i brosesau er

mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus, ac yn ymgysylltu â'r adran TGCh er mwyn hwyluso'r newidiadau hyn.

Nododd yr adroddiad 5 maes ar gyfer gwelliant hefyd:

**Maes ar gyfer Gwella 1**

***'Er mwyn gwneud gwelliannau yn y maes hwn, dylai prif gwnstabliaid wella'r ffordd mae eu heddlu'n defnyddio rhestri dioddefwyr misol y Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll i adnabod a chefnogi dioddefwyr sy'n agored i niwed a phobl eraill sydd angen cymorth ychwanegol.'***

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll yn anfon manylion pob dioddefydd sy'n byw yn ei ardal ac sydd wedi adrodd am drosedd wrth Action Fraud at bob heddlu. Canfu archwiliad blaenorol AHEM nad oedd heddluoedd yn defnyddio'r rhestri hyn yn effeithiol ar gyfer amddiffyn pobl a allai fod mewn perygl uwch.

Tra bod Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud defnydd o restr dioddefwyr wythnosol y Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll, mae proses amgen wedi'i mabwysiadu er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr twyll yn derbyn cymorth ar y pwynt cynharaf yn y broses o adrodd am drosedd.

Yn gynnar yn 2020, nododd y Tîm Troseddau Economaidd nad yw data'r Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll yn adlewyrchu gwir faint twyll yn gywir. Ar 6 Ebrill 2020, derbyniodd y Tîm Troseddau Economaidd gyfrifoldeb am reoli'r holl ddigwyddiadau twyll a seiberdroseddu yr adroddir amdanynt wrth yr Heddlu fel galwad am wasanaeth – brysbennu'r adroddiadau ac ymgysylltu â dioddefwyr cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cymorth, arweiniad a chyngor cyson gan arbenigwr pwnc ac er mwyn sicrhau y cyflwynir adroddiadau cywir i Action Fraud. Ym mis Tachwedd 2020, cyflogodd yr Heddlu Swyddog Brysbennu Twyll llawn amser, sy'n gweithio o fewn y Tîm Troseddau Ieuenctid, er mwyn rheoli galwadau am wasanaeth sy'n ymwneud â thwyll. Ariannwyd y swydd hon gan y CHTh.

Gwelodd y fenter gynnydd o 108% yn nifer yr achosion twyll yr adroddir amdanynt wrth Action Fraud, yn uniongyrchol a thrwy Heddlu Dyfed-Powys fel galwad am wasanaeth yn 2020/21.

Yn ystod y flwyddyn, cyfeiriwyd 407 o ddioddefwyr agored i niwed i Ymgyrch Signature er mwyn iddynt dderbyn cymorth ychwanegol drwy'r Swyddog Diogelu Rhag Twyll. Ariannwyd y swydd hon gan y CHTh.

Mae rhestr wythnosol y Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll yn cynnwys adroddiadau yn dilyn galwad am wasanaeth i Heddlu Dyfed-Powys yn ogystal â'r dioddefwyr hynny sydd wedi adrodd yn uniongyrchol wrth Action Fraud. Mae'r dioddefwyr hynny ar restr dioddefwyr Action Fraud sydd wedi adrodd wrth Heddlu Dyfed-Powys fel galwad am wasanaeth eisoes wedi derbyn

cyngor, arweiniad a chymorth yn ystod y cam cynharaf, cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i Action Fraud.

Mae'r Swyddogion Brysbennu a Diogelu Rhag Twyll yn craffu ar restr dioddefwyr wythnosol y Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll, ac mae'r unigolion hynny sydd wedi adrodd yn uniongyrchol wrth Action Fraud, ac sy'n ymddangos fel pe baent yn agored i niwed, hefyd yn cael eu cyfeirio i mewn i Ymgyrch Signature.

Fel y nodir uchod, mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymgysylltu â nifer sylweddol o ddioddefwyr twyll, naill ai ar ôl galwad am wasanaeth neu ar ôl iddynt gael eu nodi fel pobl sydd o bosibl yn agored i niwed ar restr dioddefwyr wythnosol y Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll gan y Swyddogion Brysbennu/Diogelu. Mae hyn yn gadael nifer bach o ddioddefwyr sydd ddim yn agored i niwed a adroddodd yn uniongyrchol wrth Action Fraud nad oes gan Heddlu Dyfed-Powys yr adnoddau i gysylltu â nhw. O ganlyniad, maen nhw'n ymgynghori â'r Uned Gofal Dioddefwyr Troseddau Economaidd Genedlaethol er mwyn iddynt lenwi'r bwlch hwnnw y tro nesaf maent yn cynnig cymorth ariannol, a fydd yn digwydd o fewn y ddeufis nesaf.

**Maes ar gyfer Gwella 2**
***'Dylai Prif Gwnstabliaid sicrhau bod eu heddluoedd yn gwella adnabod a mapio grwpiau troseddu trefnedig lle mae twyll yn brif drosedd.'***

Nodir Mapio Grwpiau Troseddu Trefnedig drwy ledaeniadau Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll ac Adroddiadau Gweithgarwch Amheus. Mae hon yn broses barhaus sy'n cael ei hadolygu'n gyson. Mae'r Tîm Troseddau Economaidd yn gweithredu asesiad matrics i achosion sy'n cael eu dwysau gan ddefnyddio'r broses dwysau twyll ROCTA (Asesiad Rhanbarthol o Fygythiad Troseddu Trefnedig) lle bo'n berthnasol.

Mae cynrychiolwyr o'r Tîm Troseddau Economaidd yn bresennol ac yn chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol a chyfarfodydd Cudd-wybodaeth Sirol Rhanbarthol.

Ymgyrch Racecourse yw ymateb Heddlu Dyfed-Powys i dwyll cludwr. Mae pob dioddefydd twyll cludwr yn derbyn gwasanaeth dioddefwyr uwch, a chynhelir ymchwiliad a chwmpas cudd-wybodaeth. Ymchwilydd Twyll enwebedig yw pwynt cyswllt sengl Dyfed-Powys ar gyfer Ymgyrch Racecourse, a bwydir cudd-wybodaeth i mewn i'r darlun cenedlaethol. Mae Ymgyrch Racecourse wedi bod yn llwyddiannus o ran adnabod Grwpiau Troseddu Trefnedig sy'n gysylltiedig â thwyll cludwr.

**Maes ar gyfer Gwella 3**
***'Er mwyn gwneud gwelliannau yn y maes hwn, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod twyllwyr yn cael eu cynnwys ymysg y rhai sy'n cael eu hystyried ar gyfer tactegau atal troseddu trefnedig difrifol, gan gynnwys gan fyrddau partneriaeth strategaeth lleol a thrwy brosesau rheoli troseddwyr yn integredig.'***

Nid yw'r cyfle i gael Gorchymyn Atal Troseddau Difrifol yn dilyn euogfarn am dwyll bob amser yn cael ei ystyried, fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa wedi codi hyd yn hyn, ac ar hyn o bryd, nid yw Dyfed-Powys yn dal unrhyw Orchmynion Atal Troseddau Difrifol ar gyfer twyll. Fodd bynnag, mae'r Tîm Troseddau Economaidd yn cynorthwyo'r Uned Rheoli Troseddwyr â 3 unigolyn sy'n byw yn yr ardal heddlu, sydd â gorchmynion yn eu henw yn dilyn euogfarn am dwyll mewn mannau eraill yn y DU.
Mae'r Tîm Troseddau Economaidd yn datblygu ymgysylltiad â Rhaglen Gorchymyn Atal Troseddau Difrifol INTACT, drwy'r Cydlynydd INTACT.

**Maes ar gyfer Gwella 4**
***'Er mwyn gwneud gwelliannau yn y maes hwn, dylai prif gwnstabliaid gynyddu defnydd eu heddlu o orchmynion ategol yn erbyn twyllwyr.'***

Mae pob achos twyll yn cael ei ystyried ar gyfer gorchmynion atafaelu Deddf Elw Troseddau fel mater o drefn, ac mae gan Heddlu Dyfed-Powys brosesau mewn grym ar gyfer sicrhau nad yw'r cyfleoedd i ddefnyddio gorchmynion ategol yn cael eu colli.
Ar hyn o bryd, mae Uned Ranbarthol Troseddu Trefnedig Tarian yn darparu cymorth o ran sicrhau Gorchymyn Rhewi Cyfrif ac adferiad sifil arian. Mae Ymchwilydd Ariannol o Dîm Troseddau Economaidd Dyfed-Powys yn cael ei achredu fel Ymchwilydd Adfer Sifil fel y bydd gan Heddlu Dyfed-Powys y gallu i ymgymryd â'i orchmynion ategol/ymchwiliadau adfer sifil ei hun.

**Maes ar gyfer Gwella 5**
***'Er mwyn gwneud gwelliannau yn y maes hwn, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod eu heddlu'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd wrth ymchwilio i dwyll.'***

Mae achosion twyll yr adroddir amdanynt fel galwad am wasanaeth yn cael eu cofnodi'n unol â'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol. Mae'r meini prawf ar gyfer cofnodi twyll yn Nyfed-Powys fel trosedd, yn hytrach nag adrodd wrth Action Fraud, fel a ganlyn:
- trosedd sy'n digwydd ar y pryd;
- troseddwr lleol hysbys;
- dioddefydd sy'n agored i niwed [gan gynnwys dioddefwyr 18 oed ac iau]; neu
- cerbyd sydd wedi'i gofrestru ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (ceir manylion isod)

Ar yr adegau hynny, gwneir cysylltiad cychwynnol â dioddefwyr drwy'r broses a nodir uchod, ac yn dilyn hyn, cyfeirir y digwyddiad at y Rhanbarth ar gyfer ymchwiliad. Unwaith y mae digwyddiad yn cael ei gofnodi fel trosedd, cyfrifoldeb rheolwr llinell y swyddog sydd â gofal dros yr achos yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr.

Ers 9 Awst 2021, mae'r Tîm Troseddau Economaidd wedi cyflogi Goruchwylydd Twyll, sy'n gyfrifol am wella ansawdd ymchwiliadau twyll ledled Heddlu Dyfed-Powys. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cyngor ac arweiniad ymchwiliol o'r cychwyn, gan osod cynlluniau gweithredu cymesur a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr.

Cyfrifoldeb y Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll yw cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr pan mae'n derbyn adroddiadau am dwyll. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll yn lledaenu rhai adroddiadau sydd angen cymorth dioddefwyr i Heddluoedd ar gyfer gwasanaeth dioddefwyr uwch. Mae'r Tîm Troseddau Economaidd yn derbyn y cyfeiriadau hyn ac yn eu bwydo i mewn i Ymgyrch Signature.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Cudd-wybodaeth Twyll hefyd yn lledaenu rhai adroddiadau i Heddluoedd ar gyfer ymchwiliadau erlid. Mae'r lledaeniadau hyn yn cael eu cofnodi fel trosedd yn Nyfed-Powys, ac mae dioddefwyr yn derbyn cymorth drwy'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr, fel y disgrifir uchod.

2. 'Sut fydd y Comisiynydd yn parhau i fonitro cynnydd gan yr heddlu yn hyn o beth er mwyn sicrhau nad yw'n ffaelu'r dioddefwyr twyll yn y dyfodol?'

Yr wyf yn hyderus bod Dyfed-Powys fel Heddlu'n cydnabod yr heriau mawr a gyflwynir gan dwyll. Mae'n galonogol iawn bod y gwaith mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud gyda dioddefwyr sy'n agored i niwed, o ran rhoi cyngor, arweiniad a chymorth, wedi'i gydnabod ar lefel genedlaethol a'i fod wedi ennill parch gan AHEM.

Dylid nodi hefyd y soniwyd am Heddlu Dyfed-Powys yn y gynhadledd genedlaethol yn Llundain ac mewn cynhadledd ddiogelu yn Efrog a gynhaliwyd ddiwedd Medi.

Yr wyf yn monitro cynnydd yr heddlu'n gyson yn hyn o beth, a bydd cyflwyniad diweddar (gan Heddlu Dinas Llundain fel Arweinydd Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer Twyll ac arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Troseddau Seiber ac Economaidd) Cylchlythyr Heddlu Arweiniol Cenedlaethol misol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn rhoi gallu pellach i fy swyddfa ddal Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif, fel yr ydym yn gwneud gyda mathau eraill o droseddau, drwy dderbyn perfformiad ein heddlu yn erbyn yr achosion twyll a gyflwynir iddynt gan Action Fraud.

Mae nifer y dioddefwyr yn ardal Dyfed-Powys wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, ac er y gellid ystyried y ffaith bod gennym gyfradd gyfeirio uchel fesul 1000 o'r boblogaeth yn rhywbeth negyddol, yr wyf wir yn credu bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol iawn. (gweler y ffigurau isod)

HDP yw’r unig Heddlu yn y wlad sy’n annog aelodau o’r cyhoedd yn weithredol i adrodd am dwyll wrthym yn uniongyrchol ac yna rydyn ni’n adrodd wrth Action Fraud ar eu rhan.

Mae’r arian a roddais ar gyfer Swyddog Brysbennu wedi galluogi hyn i ddigwydd.

Nododd yr Heddlu yn Rhagfyr 2019/Ionawr 2020 bod yr adroddiadau i Action Fraud ledled y wlad yn anghywir ac nad oeddent yn adlewyrchu maint y twyll yn gywir.

Ers mis Ebrill 2020, mae pob adroddiad gan aelodau o’r cyhoedd wedi bod yn cael ei gofnodi ar STORM, a chysylltir â PHAWB sy’n cyflwyno adroddiad. Mae hyn yn cyfrif am y cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau. Mae hyn hefyd yn golygu bod ansawdd yr adroddiad sy’n cael ei anfon at Action Fraud yn well.

- Nifer y dioddefwyr yn ardal Dyfed-Powys a gyflwynodd adroddiad i Action Fraud yn 2020-21 oedd 8.8 (fesul 1,000 o’r boblogaeth), sef y trydydd uchaf (safle 1 = yr uchaf fesul 1,000)
- Mae hyn yn cymharu â ffigwr Pob Heddlu o 6.4 a ffigwr o 6.2 ar gyfer Cymru a’r Grŵp Mwyaf Tebyg
- Mae hyn yn gynnydd sylweddol o’r ffigwr a adroddwyd yn 2019-20, sef 3.9. 41 oedd safle Dyfed-Powys bryd hynny.

**Ymateb i Gwestiynau a Gyflwynwyd**

Mae’n bwysig iawn i mi fod gan bob dioddefydd ffydd yng ngallu’r heddlu i ymchwilio i’w cwynion yn drylwyr. Mae ymgyrchoedd cenedlaethol yn cefnogi'r ymdrechion penodol hyn mewn perthynas â thwyll bancio, sy'n aml yn cael eu cefnogi gan ASau. Er enghraifft, mae Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Bancio Busnesau Teg sydd wedi bod yn lobïo'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Swyddfa Twyll Difrifol i gymryd diddordeb yn y materion hyn, gan gynnwys achosion sy'n hanesyddol.

Er nad yw o fewn fy nghylch gwaith i fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) i ymyrryd mewn cyflenwi plismona gweithredol, ymchwilio i achos penodol neu ddweud wrth yr heddlu am ymchwilio iddo, yr wyf wedi cwrdd â dioddefwyr er mwyn gwrando ar eu profiadau a deall unrhyw bryderon a/neu ymholiadau a allai fod ganddynt ar ôl i ymchwiliad heddlu ddod i ben, a byddaf yn parhau i wneud hyn. Ar adegau, mae hyn wedi arwain at gael trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â hwy yn ymgymryd â buddiannau pellach yn y materion hyn ac yn adolygu'r camau a gymerwyd hyd yma.

Yr wyf yn hyderus fod gan Heddlu Dyfed-Powys y galluoedd perthnasol i ystyried pob honiad twyll. Heddlu Dyfed-Powys yw’r unig heddlu yn y wlad sy’n annog aelodau o’r cyhoedd yn weithredol i adrodd am dwyll yn uniongyrchol wrthym. Yr ydym yna’n adrodd wrth Action Fraud ar eu rhan, gan wella ansawdd yr adroddiad a anfonir at Action Fraud. Yn ogystal, yn gynnar yn 2020, nododd y Tîm Troseddau Economaidd nad yw data’r Swyddfa Cudd-wybodaeth Twyll yn adlewyrchu gwir faint twyll yn gywir. Ar 6 Ebrill 2020, derbyniodd y Tîm Troseddau Economaidd gyfrifoldeb am reoli’r holl ddigwyddiadau twyll a seiberdroseddu yr adroddir amdanynt wrth yr Heddlu fel galwad am wasanaeth – gan frysbennu’r adroddiadau ac ymgysylltu â dioddefwyr cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cymorth, arweiniad a chyngor cyson gan arbenigwr pwnc ac er mwyn sicrhau y cyflwynir adroddiadau cywir i Action Fraud. Ym mis Tachwedd 2020, cyflogodd yr Heddlu Swyddog Brysbennu Twyll llawn amser, sy’n gweithio o fewn y Tîm Troseddau Ariannol, er mwyn rheoli galwadau am wasanaeth sy’n ymwneud â thwyll. Mae fy swyddfa i wedi ariannu’r swydd hon. Byddwn yn cynghori ymhellach fod y gwaith sy’n cael ei wneud gan Heddlu Dyfed-Powys gyda dioddefwyr agored i niwed, o ran darparu cyngor, arweiniad a chymorth, wedi’i gydnabod ar lefel leol ac wedi ennill parch Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM).

Fel rhan o’m swydd a’m cylch gwaith, rwy’n cwrdd â dioddefwyr, a gyda’u caniatâd, rwy’n cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys ac yn ceisio sicrhau bod yr Heddlu’n ystyried unrhyw bryderon a godwyd yn llawn a bod dioddefwyr yn derbyn esboniad llawn o’r gwaith a wnaed gan yr Heddlu. Yr wyf hefyd yn ystyried pa un ai a oes unrhyw ddewisiadau amgen i ddatblygu unrhyw faterion ar gael i ddioddefwyr, ac os felly, yn rhoi’r wybodaeth berthnasol i ddioddefwyr. Yn dilyn fy nghysylltiad, darperir ymateb ysgrifenedig llawn wedi hynny i’r dioddefydd gan fy swyddfa.

Bydd cyflwyniad diweddar (gan Heddlu Dinas Llundain fel Arweinydd Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer Twyll ac arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Troseddau Seiber ac Economaidd) Cylchlythyr Heddlu Arweiniol Cenedlaethol misol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn rhoi gallu pellach i fy swyddfa ddal Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif, fel yr ydym yn gwneud gyda mathau eraill o droseddau, drwy dderbyn perfformiad ein heddlu yn erbyn yr achosion twyll a gyflwynir iddynt gan Action Fraud.

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**05/11/21**

| CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br>Craffu ar y Cynllun Heddlu a Throseddu a gwneud argymhellion y mae'r panel yn credu eu bod yn addas. Dylai aelodau'r panel ystyried y canlynol:<br>• A yw'r cynllun yn bodloni holl ofynion adrannau 7(1) a 7(2) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011<br>• I ba raddau y mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y panel yn ei ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiynydd ar y cynllun<br>• I ba raddau y mae'r cynllun yn adlewyrchu'r ymatebion a gafwyd gan y cyhoedd yn ehangach i ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiynydd ar y cynllun |
| **Y rhesymau:**<br>Mae dyletswydd statudol ar y panel i wneud hyn. |

| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn |
|---|---|---|
| Robert Edgecombe | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | 01267 224018<br>Cyfeiriad e-bost:<br>rjedgeco@sirgar.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# EXECUTIVE SUMMARY
# DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 05/11/21

| POLICE AND CRIME PLAN | |
|---|---|
| Section 7(1) of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 requires the Commissioner to publish a Police and Crime Plan which addresses the following<br>• The Commissioner's police and crime objectives<br>• The policing which the Chief constable is to provide<br>• The financial and other resources which the Commissioner is to provide to the Chief Constable to enable her/him to exercise his functions<br>• The means by which the Chief Constable will report to the Commissioner on her/his provision of policing<br>• The means by which the Chief Constable's performance will be measured<br>• The crime and disorder reduction grants which the Commissioner is to make and the conditions (if any) to which such grants are to be made<br><br>Section 7(2) provides that the Commissioner's police and crime objectives are his objectives for<br>• The policing of the area<br>• Crime and disorder reduction in the area<br>• The discharge by the police force of its national and international functions.<br><br>On the 28th May 2021 the Panel formally responded to the Commissioner's consultation on the Plan and made six recommendations. A copy of that response, together with the draft plan, is attached to this report. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES** |

# IMPLICATIONS

| **I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**<br>**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information<br><br>List of Background Papers used in the preparation of this report:<br><br>THESE ARE DETAILED BELOW | | |
|---|---|---|
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| **Host Authority File** | **PACP-040** | **County Hall, Carmarthen** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-2025 Dyfed-Powys

# Dyfed-Powys o Gymunedau Diogel

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

# Cynnwys

Rhagair ..... 3
Fy Ngweledigaeth: Dyfed-Powys o Gymunedau Diogel ..... 4
Fy Mlaenoriaethau ar gyfer Plismona a Throseddu ..... 5
**Blaenoriaeth 1: Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi** ..... 5
Pam mae'n bwysig? ..... 5
Sut beth yw llwyddiant? ..... 6
Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? ..... 6
Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo? ..... 7
**Blaenoriaeth 2: Mae niwed yn cael ei atal** ..... 8
Pam mae'n bwysig? ..... 8
Sut beth yw llwyddiant? ..... 8
Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? ..... 9
Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo? ..... 9
**Blaenoriaeth 3: Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol** ..... 10
Pam mae'n bwysig? ..... 10
Sut beth yw llwyddiant? ..... 11
Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? ..... 11
Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo? ..... 12
**Cydweithio** ..... 13
**Bod yn atebol** ..... 13
**Bod yn cynaliadwy** ..... 15
**Ymgysylltu'n eang** ..... 15
Adnoddau ..... 16
Gwasanaethau yr wyf yn eu Comisiynu ..... 19
Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ..... 20
Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid ..... 21
Panel Sicrhau Ansawdd ..... 21
Llysgenhadon Ifainc ..... 21
Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ..... 21
Ein hardal ..... 22
Ein pobl ..... 22
Rolau a chyfrifoldebau ..... 23
Ynghylch y Cynllun hwn ..... 24

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

## Rhagair

Rwy'n ymfalchïo yn y ffaith fy mod i wedi fy ethol fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu am ail dymor, a byddaf yn parhau i ddatblygu perthynas waith agos â holl gymunedau'r ardal ddaearyddol eang y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei gwasanaethu. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws y pedair ardal Awdurdod Unedol, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro, wedi bod yn flaenoriaeth i mi erioed, a bydd yn parhau'n flaenoriaeth imi. Mae gennyf ymrwymiad o hyd i roi llais cryf i'r cyhoedd o ran llunio ei wasanaeth plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhan anhepgor o'n cymunedau, ac mae'r berthynas unigryw hon yn hollbwysig. Mae'n rhaid i'r cyhoedd barhau'n ganolog i bob dim a wnawn a phob penderfyniad a wnawn. Mae darparu sail dystiolaeth ar gyfer ein gweithredoedd a'n buddsoddiadau'n bwysig, a thrwy harneisio'r defnydd o dechnoleg a data i lunio ein gwasanaethau, rwy'n siŵr bod modd cyflwyno gwelliannau pellach ar gyfer sicrhau diogeledd a diogelwch ein hardal.

Fel yr 'Hyrwyddwr Dioddefwyr' lleol, mae'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr yn flaenoriaeth, a dylent fod wrth galon popeth a wna'r Heddlu a'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol yn ein hardal. Rhaid deall hawliau dioddefwyr a'u cyflawni'n llawn, gan sicrhau bod gwasanaethau wir yn canolbwyntio ar ddioddefwyr.

Yr wyf eisiau canolbwyntio ar atal niwed a achosir i unigolion a chymunedau drwy drosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bregusrwydd. Bydd gweithio mewn ffordd sy'n ceisio datrys problemau o fewn ein cymunedau'n sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Mae'n hollbwysig bod yr adnoddau hyn yn weladwy a hygyrch, ac yn dangos brwdfrydedd dros wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cyhoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Gellir ond cyflwyno system cyfiawnder troseddol effeithiol drwy gydweithio ar draws y sector cyhoeddus a gydag arbenigwyr pwnc o fewn ein Gwasanaethau Comisiwn. Bydd rhoi cyfleoedd a grym i wirfoddolwyr a'r trydydd sector fod yn rhan ganolog o'r system cyfiawnder troseddol yn cryfhau ein hymateb ymhellach, a byddaf yn parhau i gyflwyno amgylchedd er mwyn i hyn ffynnu.

Drwy'r Cynllun hwn, yr wyf wedi sefydlu'r cyfeiriad strategol ac amlinellu blaenoriaethau. Yn hollbwysig, mae hwn yn gynllun dynamig a fydd yn esblygu ac yn addasu i'r heriau dros y blynyddoedd i ddod, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder troseddol a phlismona'n parhau'n berthnasol ac yn ystyried y cyd-destun o fewn pa un y maent yn gweithredu. Yr wyf yn hyderus y bydd ymagwedd bartneriaeth yn arwain at wasanaeth gwell i chi'r cyhoedd, ac edrychaf ymlaen at eich gwasanaethu fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am dymor arall.



DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

## Fy Ngweledigaeth: Dyfed-Powys o Gymunedau Diogel

Fy ngweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer 2021-25 yw i gadw cymunedau Canolbarth a Orllewin Cymru yn ddiogel, gan cynnal ymddiried a hyder yn ein Heddlu ac chyfiawnder troseddol.

Mae hyn yn golygu:

1. Rydym yn cadw ein cymunedau'n ddiogel, gan cefnogi pan fydd trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
2. Mae ein gwasanaethau yn hygyrch i bob gymuned, gan gydnabod amrywiaeth a'r iaith Gymraeg; ac Rydym yn mynd i ymdrin â phroblemau niwed cymunedol uchel, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod a merched ac iechyd meddwl. Rydym yn darparu system blismona a chyfiawnder sy'n diwallu anghenion atal troseddu ein cymunedau, yn diogelu'r cyhoedd ac yn adeiladu gwydnwch;
3. Mae ein hymgysylltiad cyhoeddus ystyrlon, pellgyrhaeddol yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

Byddaf yn defnyddio amrediad o fesurau meintiol ac ansoddol i ateb y cwestiynau hyn, ac yn rhoi diweddariadau am gynnydd yn erbyn y deilliannau i'r Panel Heddlu a Throseddu ac fydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei chyhoeddi ar fy ngwefan.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

# Fy Mlaenoriaethau ar gyfer Plismona a Throseddu

## Blaenoriaeth 1: Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi

Rwyf eisiau sicrhau bod dioddefwyr trosedd yn:

Cael eu Hadnabod ac yn cael eu cefnogi, gan deilwra ymatebion i'w hanghenion unigol..

### Pam mae'n bwysig?

*"Y gobaith yw mai Gosod Dioddefwyr yn y Canol yw'r ffordd ymlaen ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Dyna lle y byddech eisiau i'r Heddlu fod, ac os mai dyna lle'r ydych chi'n symud tuag at fel heddlu, mae'n dda clywed hynny."*

**Un o gyfranwyr y grŵp ymgynghorol 'Llai o Lais'**

- Mae dyletswydd ar fy mhartneriaid a minnau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd a'r Siarter Tystion.
- Mae gennyf ddyletswydd statudol i ddiogelu plant a phobl ifainc a hyrwyddo eu lles.
- Dywedodd preswylwyr wrthyf yr agweddau pwysicaf ar sut rydym yn ymateb i ddioddefwyr yw fod y dioddefwr yn derbyn gwybodaeth pwrpasol am yr hyn sy'n digwydd nesaf a'r cymorth sydd ar gael wrth adrodd am drosedd, yn ogystal â chael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi nodi bod dal angen llawer iawn o adnoddau er mwyn mynd i'r afael â galw o ran diogelu (yn arbennig Cam-drin Domestig). Disgwylir y bydd ardal Heddlu Dyfed-Powys yn gweld cynnydd o 20-28% yn y boblogaeth sy'n heneiddio, â phobl dros 65 oed sy'n byw gyda dementia yng Nghymru'n cynyddu 64% erbyn 2035.
- Disgwylir y bydd galw mewn perthynas â throseddau rhywiol yn parhau i gynyddu.
- Mae gan Heddlu Dyfed-Powys un o'r cyfraddau uchaf o ddioddefwyr sy'n tynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol, sef 37.3%. Mae hyn 14.7% yn uwch na'r gyfradd genedlaethol.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl cynnydd o ran camfanteisio ar blant, materion diogelu ar-lein a thrais yn erbyn plant (mewn perthynas â Dileu'r Amddiffyniad o Gosb Resymol).
- Yn 2018, roedd 55-58% o achosion trais yn ymwneud â phlant dan 18 mlwydd oed.
- Ar gyfartaledd, mae 10% o ddioddefwyr yn iau na 18 oed adeg y drosedd. Mae 22% yn 25 oed neu iau.
- Cyfeiriwyd dros 27,000 o ddioddefwyr ac unigolion agored i niwed at wasanaethau a gomisiynir gennyf i yn 2020-21. Mae hyn yn cynnwys Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol, Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol, cymorth ar gyfer dioddefwyr a thystion, gwasanaeth ôl-drafod ar gyfer pobl ifainc sydd wedi bod ar goll, a gwasanaethau troseddau ieuenctid, ac atal.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

- Dywedodd 58% o'r dioddefwyr a holwyd eu bod nhw'n fodlon â'u profiad o'r gwasanaeth gan Heddlu Dyfed-Powys[1].
- Mae Plismona yng Nghymru'n anelu i leihau'r effeithiau negyddol o drosedd drwy amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, a sicrhau bod dioddefwyr trosedd yn cael mynediad at system gyfan o gymorth ac fod y cymorth yn cael ardrawiad cadarnhaol.
- Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru fod yn gyfrifol am sicrhau bod hawliau dioddefwyr yn cael eu parchu, a bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno i ddioddefwyr yn briodol.
- Byddwn yn parhau i gyfrannu at y Nod Lles Cenedlaethol o fod "*yn Gymru iachach: cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu, a lle y deellir dewisiadau ac ymddygiadau sy'n elwa iechyd yn y dyfodol.*"
- Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu ei blaenoriaeth i weld gwelliant yng nghyfraddau bodlonrwydd dioddefwyr.
- Un o flaenoriaethau strategol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ar gyfer 2021-22 yw lleihau nifer y dioddefwyr camfanteisio. Mae hyn yn cynnwys Cam-drin Plant yn Rhywiol, Camfanteisio ar Blant, Caethwasiaeth Fodern, Masnachu Mewn Pobl, a Throseddau Mewnfudo Trefnedig.

## Sut beth yw llwyddiant?

1. Cofnodi troseddau cywir a nodi dioddefwyr.
2. Diogelu rhag niwed ac erledigaeth ailadroddus.
3. Gwrando ar farn dioddefwyr a rhoi profiad cadarnhaol iddynt beth bynnag fo'r canlyniad.
4. Cyflawni ein rhwymedigaethau i Siarter Tystion Cod Dioddefwyr.
5. Comisiynu gwasanaethau i helpu dioddefwyr i ymdopi ac adfer.

## Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gyfer bodloni anghenion pob dioddefydd.
- Buddsoddi yn wasanaethau sy'n cefnogi plant fel dioddefwyr ac atal neu leihau'r perygl y byddant yn dioddef camfanteisio.
- Blaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau rhywiol difrifol a throseddau casineb.
- Cefnogi Rhaglen Ysgolion Cymru i wella'r ddealltwriaeth o drais yn erbyn menywod a merched.
- Siarad am dioddefwyr a'r tystion hynny, a'r bobl hynny sy'n agored i niwed, sydd ddim bob amser yn cael eu clywed.
- Hyrwyddo'r defnydd o safleoedd tystiolaeth pell i ddarparu lle diogel a chefnogol i ddioddefwyr a thystion.
- Parhau i gomisiynu cymorth arbenigol ar gyfer dioddefwyr trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais domestig a thrais rhywiol.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

[1] 142 o ymatebwyr i 3,420 o arolygon a gyhoeddwyd rhwng 10/2/21 a 19/9/21. Roedd 38 yn gwbl fodlon, roedd 26 yn fodlon iawn, ac roedd 19 yn weddol fodlon.

- Parhau i gefnogi'r cynnydd o ran rhanbartholi Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.
- Lobïo am newid i ddeddfwriaeth Cymru er mwyn caniatáu ar gyfer llwybr archwilio iechyd a fforensig di-dor ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau rhywiol.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â phrinder gwasanaethau ymosodiadau rhywiol paediatrig.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu llwybr cymorth ar gyfer dioddefwyr trosedd ifainc.
- Gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr i gryfhau llais y dioddefydd yn ardal Dyfed-Powys.
- Cyflwyno Hyrwyddwr Dioddefwyr ar gyfer Dyfed-Powys, a fydd yn gweithio gyda fy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr i hysbysu gwelliannau i gyflenwi gwasanaethau.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo?

Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, partneriaid a'm swyddfa i'w arddangos::

a) Ymatebion effeithlon ac effeithiol i alwadau'r cyhoedd am help.
b) Dysgu o brofiad goroeswyr i lywio ymarfer yn y dyfodol.
c) Datrys cwynion yn effeithiol.
ch) Arloesi i gynyddu cyfleoedd adrodd i ddioddefwyr.
d) Gweithlu mwy amrywiol sy'n cynrychioli ein cymunedau.
dd) Pa mor dda y mae dioddefwyr troseddau rhywiol difrifol a throseddau casineb yn cael eu cefnogi.
e) Gostyngiad yng nghyfran y dioddefwyr sy'n ymddieithrio neu'n tynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

# Blaenoriaeth 2: Mae niwed yn cael ei atal

Rwyf eisiau atal niwed i unigolion a chymunedau a achosir drwy droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn agored i niwed. :

## Pam mae'n bwysig?

- Dywedodd y cyhoedd a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys mai gweithio gyda throseddwyr i'w dargyfeirio rhag ymddygiad troseddol oedd y trydydd mesur ataliol pwysicaf; y ddau gyntaf oedd fod addysgu pob unigolyn ifanc am ganlyniadau troseddu, a chefnogi pobl ifainc sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.
- Mae gan Gomisiynwyr a phartneriaid ddyletswydd i gydweithio er mwyn atal a mynd i'r afael â throsedd, i lleihau trosedd ac anrhefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, aildroseddu a chamddefnyddio sylweddau.
- Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys yn gydnaws â blaenoriaethau Cymru Gyfan gyda chynllun cyflenwi lleol er mwyn sicrhau bod canlyniadau wedi'u teilwra i'n cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ddioddefwyr, troseddwyr, ymyrraeth gynnar ac atal a chydraddoldeb hiliol.
- Blismona yng Nghymru yn gwneud atal niwed a chydweithio er mwyn mynd i'r afael â gyrwyr niwed, yn flaenoriaeth. Nodwyd y canlynol yn yrwyr niwed: camddefnyddio sylweddau, (gan gynnwys alcohol), trais, (gyda phwyslais arbennig ar drais domestig a cham-drin a thrais rhywiol, yn ogystal â thrais sy'n gysylltiedig â gweithgarwch troseddol), iechyd meddwl ac argyfyngau personol, profiadau niweidiol adeg plentyndod a phob math o gam-drin a chamfanteisio.
- Mae Cyfiawnder Adferol yng Nghymru yn benderfynol yng sicrhau y dylai ymyrraeth gynnar ac atal fod yn flaenoriaethau strategol ar gyfer pob sefydliad Cyfiawnder Troseddol.
- Blaenoriaeth Gweledigaeth Blismona 2030 Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ac yr Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw datblygu ein defnydd o gamau ymyrraeth gynnar ac ymagweddau datrys problemau er mwyn lleihau digwyddiadau yn ein cymuned.

## Sut beth yw llwyddiant?

- Mabwysiadwn ymyrraeth gynnar a dull datrys problemau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol .
- Rydym yn mynd ati i ymdrin â phroblemau niwed cymunedol uchel, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod a merched ac iechyd meddwl..
- Rydym yn hyrwyddo dull sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn sy'n cydnabod pa mor agored i niwed yw plant a phobl ifanc, sy'n gwella eu cyfleoedd bywyd..

Cynyddu diogelwch ar y ffyrdd drwy fynd i'r afael â phum prif achos gwrthdrawiadau ac anafiadau traffig ar y ffyrdd yng Nghymru (Angheuol 5).

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

## Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Annog gwasanaethau adferol ystyrlon a chynaliadwy sy'n briodol ar gyfer oedran, gan fod yn ystyriol o anghenion y rhai sy'n cymryd rhan. Gallai hyn gynnwys arferion adferol mewn gosodiadau cymunedol; teulu ac addysg a ddefnyddir ar gyfer mesurau ataliol a chymorth parhaus; ac o waharddiadau tu allan i'r llys i ddargyfeirio oedolion ifainc rhag y system cyfiawnder troseddol, fel rhan o ddedfrydau cymunedol ac ochr yn ochr â dedfrydau o garchar.
- Parhau i gefnogi gwaith y 'Female Offending Blueprint', gan sicrhau bod anghenion penodol menywod yn cael eu cydnabod o fewn y System Cyfiawnder Troseddol
- Gweithio i gadw pobl ifainc allan o'r system cyfiawnder troseddol drwy hyrwyddo model plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a hysbysir gan drawma. Yn arbennig, byddaf yn cefnogi cyflwyno a gweithredu protocol cenedlaethol ar gyfer lleihau troseddi anghymesur plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a buddsoddi ar y cyd mewn gwasanaethau ataliol.
- Gweithio ar yr agenda gorddos angheuol a gorddos nad yw'n angheuol, gan gynnwys datrysiadau amgen i driniaeth camddefnyddio sylweddau.
- Herio'r fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas â chamddefnyddio cyffuriau.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo?

Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, partneriaid a'm swyddfa i'w arddangos: :

a) Lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mhob cymuned.
b) Gostyngiad yn y bygythiad o Droseddau a Chamfanteisio Cyfundrefnol Difrifol.
c) Cymunedau mwy diogel drwy leihau ofn troseddu.
ch) Gwrando ac ymdrin â blaenoriaethau'r gymuned leol.
d) Datblygu perthynas â phobl ifanc drwy weithgareddau fforwm ac ymgysylltu.
dd) Gwasanaethau atal ar gyfer pobl ifanc sy'n effeithiol o ran lleihau risg a niwed.
e) Pa mor effeithiol yw Heddlu Dyfed-Powys o ran amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

## Blaenoriaeth 3: Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol

Yr wyf wedi ymrwymo weithio gyda phartneriaid, cymunedau a dioddefwyr i wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol.:

*"Mae pobl Cymru yn cael eu siomi gan y system [cyfiawnder troseddol] yn ei chyflwr presennol... er gwaethaf gwelliant i'r ffordd y caiff dioddefwyr eu trin, mae angen gwneud llawer mwy i'w cynnwys yn y system gyfiawnder." (Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019)*

### Pam mae'n bwysig?

- Mae dyletswydd statudol arnaf i sicrhau y darperir system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon ar gyfer ein ardal heddlu.
- O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid imi gefnogi ymdrechion ar y cyd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cydraddoldeb cyfle i bawb; a meithrin perthnasau da rhwng pobl.
- Dywedodd y cyhoedd a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys mai mynediad cyfartal at gyfiawnder sydd fwyaf pwysig, ac mai erlyniad sydd lleiaf pwysig. Mae grwpiau sydd â llai o lais hefyd yn dweud bod cael eu clywed, eu deall a'u parchu'n bwysig dros ben.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys yn rhagweld y bydd nifer cynyddol o droseddwyr angen eu rheoli – roedd 8% o ddrwgdybiedigion yn 2021 yn iau na 18 oed; efo 20% yn 25 oed neu iau. Dros y pedair blynedd diwethaf, ar gyfartaledd, roedd 5% o garcharorion yn y ddalfa'n iau na 18 oed efo 30% yn iau na 30 oed.
- Dros y 4 blynedd diwethaf, ar gyfartaledd:
    - Gan amlaf, mae lladradau a throseddau rhywiol yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau na mathau eraill o droseddau. Cymerir dros 100 diwrnod i gyrraedd canlyniad mewn 26% a 38% o achosion yn ôl eu trefn.
    - Nid yw'n fawr o syndod mai 'canlyniad 16' yw'r canlyniad mwyaf cyffredin ar gyfer troseddau rhywiol (ni cheir cefnogaeth y dioddefydd er bod drwgdybyn wedi'i enwi).
    - Mewn lladradau, mae 20% o achosion yn arwain at gyhuddiad, ond ni nodir drwgdybyn mewn 19% o achosion, ac mewn 18% o achosion, ni cheir cefnogaeth y dioddefydd er bod drwgdybyn wedi'i enwi.
    - Troseddau Trais yn erbyn y Person yw'r troseddau sy'n cael eu cofnodi amlaf, ac mae 30% yn cael eu cwblhau o fewn mis. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, mae 48% o'r rhain yn cael eu cwblhau drwy wrthodiad y dioddefydd i gefnogi camau gweithredu pellach, er bod drwgdybyn wedi'i adnabod.
- Rhwng Gorffennaf a Medi 2020-21:
    - Roedd unigolion o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu chwilio gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys na phobl croenwyn.
    - Roedd 23.9% o bob chwiliad a gynhaliwyd gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn cyfateb â'r rheswm gwreiddiol dros chwilio.



DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

- Cynhelir y rhan fwyaf o chwiliadau ar bobl sy'n iau na 25 oed.

- Mae Blismona Cymru wedi sefydlu uchelgais inni gyfrannu'n effeithiol at gyflenwi Datganiad o Ddiben 2020-2030 Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Maent hefyd yn nodi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i ystyried yr oblygiadau ymarferol a fyddai'n dilyn yn sgil cyflwyno'r argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru, sy'n ceisio diwygio'r system gyfiawnder a'r cynllun datganoli presennol i gyflwyno cyfiawnder yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru.
- Adlewyrchir hyn yn ein Nod Lles Cenedlaethol: "*Cymru Fwy Cyfartal: cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, waeth pa beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau."*
- Mae Gweledigaeth Blismona 2030 Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n anelu i gefnogi integreiddio a chysylltu gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol ar lefel leol.

## Sut beth yw llwyddiant?

1. Gwell ffydd a hyder yn y system cyfiawnder troseddol.
2. Canlyniadau cyfiawnder troseddol mwy llwyddiannus, yn enwedig mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched.
3. Rydym yn cydnabod pa mor agored i niwed yw plant yn y system cyfiawnder troseddol, fel dioddefwyr a chyflawnwyr.
4. Llai o aildroseddu drwy ymyriadau wedi'u targedu a gorchmynion ataliol.
5. Gwell ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol drwy sefydlu barn dioddefwyr, cyfiawnder adferol priodol ac asesu anghymhwysedd o fewn y system

## Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymagwedd wedi'i theilwra tuag at weithio gydag oedolion ifainc sy'n cyflawni troseddau lefel isel, gan sicrhau bod yr unigolion hyn yn medru cael eu dargyfeirio'n ddiogel a mwy effeithiol rhag y system cyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi arian grant i sefydliadau bach fel eu bod nhw'n medru bodloni dyheadau ac anghenion amrywiol oedolion ifainc mewn ffyrdd creadigol.
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o arfer adferol yn ystod pob cam o'r system cyfiawnder troseddol.
- Gweithio gyda phartneriaid i gomisiynu cymorth priodol er mwyn helpu oedolion ifainc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol i adeiladu hyder, nodi eu nodau gyrfa a chael mynediad at hyfforddiant, datblygiad a chyflogaeth ynglŷn ar glasbrint cyfiawnder ieuenctid.
- Cefnogi partneriaid sy'n darparu cymorth ar gyfer pobl ifainc sy'n pontio rhwng gwasanaethau troseddau ieuenctid a phrawf.
- Ymgyrchu i ddod â'r stigma gydol oes o gofnodion troseddol a gafwyd adeg plentyndod i ben. Byddaf yn lobïo Llywodraeth y DU i gysoni ein system cofnodion troseddol â chenhedloedd eraill Ewrop, gan gynnwys yr

DRAFT – SHARED IN CONFIDENCE

Alban, gan godi oed cyfrifoldeb troseddol o deg mlwydd oed i deuddeg mlwydd oed o leiaf.
- Galw ar ddyletswydd statudol partneriaid eraill i ddarparu cymorth priodol ar gyfer pobl ifainc.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ymateb i argymhellion allweddol adroddiad y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru.
- Gwella casglu data er mwyn deall triniaeth anghyfartal o ddioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol a mynd i'r afael â hyn.
- Cyfrannu'n effeithiol at gyflenwi Datganiad o Ddiben 2020-2030 Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.
- Parhau i yrru blaenoriaethau ein bwrdd cyfiawnder troseddol lleol a hyrwyddo cydweithio ledled Cymru rhwng cyrff Cyfiawnder Troseddol.
- Cefnogi Rheoli Troseddwyr yn Integredig Cymru a Gwasanaeth Carchardai, a Phrawf Ei Mawrhydi i gyflenwi'r fframwaith ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o droseddu.
- Gwella'r newid rhwng y cymorth a ddarperir i droseddwyr tra byddant yn y carchar a'r rhai sydd ar gael yn y gymuned.
- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r gefnogaeth a roddir i droseddwyr cam-drin domestig a'u dioddefwyr a'u teuluoedd.
- Cefnogi Heddlu Dyfed-Powys i wella ymwybyddiaeth o bŵer yr heddlu i Stopio a Chwilio a chyfreithlondeb y defnydd ohono.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo?

Byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl, partneriaid a'm swyddfa i arddangos: :

a) Gostyngiadau yn yr ôl-groniadau yn y system cyfiawnder troseddol.
b) Defnyddio craffu annibynnol i fynd i'r afael ag anghymhwysedd.
c) Arloesi i wella profiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol.
ch) Gostyngiad yn nifer y rhai sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.
d) Llai o droseddwyr benywaidd sy'n cael dedfrydau o garchar.
dd) Lleihau aildroseddu.
e) Cynigir dull adferol fel mater o drefn yn ogystal ag unrhyw ganlyniad ffurfiol, i ddioddefwyr unrhyw fath o drosedd.

Er mwyn cyflawni fy ngweledigaeth o 'Gymunedau diogel Dyfed-Powys', byddaf yn annog y heddlu a'r systemau cyfiawnder troseddol i weithio'n effeithiol ac effeithlon drwy:

- Gydweithio;
- Bod yn atebol;
- Bod yn wydn; a thrwy
- Ymgysylltu'n eang.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

## Cydweithio

**Mae sefydliadau a chymunedau yn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn cydweithio, a chydbwysir ein hanghenion a'n nodau â rhai cyrff cyhoeddus eraill.**

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Parhau i pwyso am ddull mwy integredig o wella arweinyddiaeth a darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl;, gan gynnwys cymorth ar gyfer gwasanaethau rheng flaen i'w galluogi i ymateb yn well i unigolion ag anghenion iechyd meddwl.
- Gweithio'n agos gyda busnesau lleol i ddeall trais a cham-drin tuag at staff a sicrhau bod ymateb addas gan yr heddlu yn cael ei ddarparu.
- Llofnodi'r Addewid Dioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a hwyluso apeliadau sbarduno cymunedol.
- Cefnogi gwaith Canolfan Seiber-gydnerth Cymru
- Gweithio gyda chydweithwyr drwy strwythurau Plismona yng Nghymru a Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, i archwilio a gwerthuso cyfleoedd cydweithio newydd yn gyson gyda heddluoedd eraill yng Nghymru a'r DU.
- Cyfrannu, drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogelach, at oruchwyliaeth a chyfeiriad cenedlaethol rhaglen waith a rennir gan Lywodraeth Leol, Plismona yng Nghymru a phartneriaid eraill. Y nod fydd sicrhau arweinyddiaeth effeithiol a rennir, gan alluogi gweithio mewn partneriaeth leol i gefnogi cymunedau diogel, cryf a hyderus.
- Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hyrwyddo a datblygu Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cymru sy'n cefnogi gweithgarwch a chamau gweithredu lleol.
- Ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau bod ein cyfrifoldebau diogelwch cymunedol yn ymateb i anghenion a disgwyliadau ein dinasyddion a'n cymunedau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Dylanwadu'n weithredol ar weithgareddau Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ac ymgysylltu â hwy.
- Parhau i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn bodloni gofynion y Gofyniad Plismona Strategol.

## Bod yn atebol

**Yr ydym yn dryloyw ac yn atebol i bobl ardal Dyfed-Powys.**

*Nododd Syr Robert Peel, wrth ddylunio heddlu moesegol, un o'i egwyddorion fel a ganlyn, 'cydnabod bob amser fod pŵer yr heddlu i gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau yn dibynnu ar gymeradwyaeth y cyhoedd i'w bodolaeth, eu gweithredoedd a'u hymddygiad, ac ar eu gallu i sicrhau a chynnal parch y cyhoedd.'*

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:



DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

- Ymgymryd â gwaith ar gyfer deall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifainc. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd ein mecanweithiau craffu ar gyfer helpu i adeiladu ffydd a hyder, gan gynnwys sicrhau bod oedolion ifainc yn medru cymryd rhan ystyrlon mewn dal yr heddlu i gyfrif.
- Cefnogi'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus a phriodol wrth gael mynediad i'n gwasanaethau.
- Rhoi mwy o gyfleoedd i gysylltu â chymunedau, gwrando arnynt ac ymgysylltu â nhw.
- Sicrhau bod safbwyntiau pobl fel aelodau o'r gymuned a rhai sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol (fel dioddefwyr, troseddwyr, neu'r ddau) yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau ymgynghori.
- Drwy fy Fforwm Ieuenctid a'm Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, rhoi cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad personol gymryd rhan mewn trafodaethau lleol am flaenoriaethau cyfiawnder troseddol a chynllunio gwasanaethau ar y cyd lle bo'n briodol.
- Sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn y wybodaeth sydd angen arnynt er mwyn asesu perfformiad eu gwasanaethau plismona a throsedd.
- Cynnwys pobl mewn paratoi cyhoeddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn syml a bod y cyhoedd yn eu deall.
- Bod yn atebol i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, gan roi ystyriaeth ddyledus i'w argymhellion imi ynglŷn â'm penderfyniadau allweddol.
- Gwneud defnydd llawn o'n Cyd-bwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu o ran sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl a minnau drefniadau llywodraethu, gweithdrefnau ariannol a rheoliadau busnes cadarn mewn grym.
- Parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr a Phaneli sy'n fy nghefnogi i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona effeithiol, effeithlon a chyfreithlon, gan gynnwys:
    - Fy Mhanel Sicrhau Ansawdd, sy'n craffu ar ansawdd cyswllt yr Heddlu â'r cyhoedd mewn modd tryloyw ac annibynnol ar ran y cymunedau yn ardal Dyfed-Powys;
    - Fy Mhanel Craffu ar Warediadau Tu Allan i'r Llys, lle mae partneriaid o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn dod at ei gilydd i asesu'r defnydd o warediadau tu allan i'r llys (megis rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuenctid) gan Heddlu Dyfed-Powys, craffu arnynt a sicrhau eu hansawdd yn annibynnol.
    - Fy Ymwelwyr Lleyg er Lles Anifeiliaid, sef gwirfoddolwyr sy'n edrych ar amodau cŵn Heddlu Dyfed-Powys a sut y gofalir amdanynt.
    - Fy Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, sef gwirfoddolwyr sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu er mwyn gwirio ar les carcharorion a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal.

- Ymateb yn gymesur i unrhyw adroddiadau annibynnol a gyflwynir i Heddlu Dyfed-Powys gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) ac arweiniad a dysgu gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

DRAFT – SHARED IN CONFIDENCE

## Bod yn cynaliadwy

**Yr ydym yn cynnal ac yn gwella amgylcheddau cymdeithasol, sy'n cefnogi cadernid economaidd ac ecolegol, sy'n gyson ag amgylcheddau naturiol bioamrywiol a systemau eco iach. Mae hyn yn cefnogi'n hymrwymiad a'r gallu i addasu i newid, gan gydbwyso anghenion tymor byr â'r angen ar gyfer diogelu ein dyfodol.**

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Lobïo am setliad ariannu teg tymor hirach ar gyfer heddluoedd Cymru / dadlau'r achos o blaid Cymru'n derbyn dyraniad teg o'r arian sy'n deillio o unrhyw Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu, neu ddyraniad adnoddau perthnasol arall.
- Datblygu a mewnosod diwylliant arloesol o ran cynaliadwyedd drwy leihau ein hôl troed carbon a sicrhau bod ein hystâd, fflyd cerbydau, cyflenwadau, gweithdrefnau a phrosesau gwasanaeth yn amgylcheddol gyfrifol.
- Sicrhau stiwardiaeth effeithiol o'r ystâd heddlu.
- Gyrru effeithlonrwydd drwy gydweithio a dysgu.
- Annog a galluogi gwaith gyda'r Coleg Plismona, y gwasanaeth heddlu ehangach, partneriaid a'r byd addysg i nodi a rhannu dysgu am fygythiadau cyfredol.
- Cefnogi buddsoddi mewn gallu dadansoddol, prosiectau datgarboneiddio, datblygiadau TG a rhaglenni moderneiddio arloesol.
- Annog gweithio mewn partneriaeth i ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, o ran cynaliadwyedd a pholisïau ecogyfeillgar, ac o ran sicrhau bod gennym y gallu a'r gallu ar y cyd i ddelio ag effaith Newid yn yr Hinsawdd, megis llifogydd a thywydd garw eraill.

## Ymgysylltu'n eang

Mae pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ardal Heddlu Dyfed-Powys yn gysylltiedig â phenderfyniadau sy'n bwysig iddynt.

- Mae'n Egwyddor Peelaidd i gydnabod bob amser bod angen sicrhau cydweithrediad parod aelodau'r cyhoedd yn y dasg o sicrhau y glynir wrth y gyfraith, yn ogystal â sicrhau eu parch a'u chymeradwyaeth.
- "Cymru yw'r unig genedl yn y DU lle mae cyfran uwch o'r cyhoedd yn credu bod gan bobl gyfleoedd cyfartal i ddatblygu mewn bywyd"[2]. Yr wyf eisiau inni sicrhau bod y gred honno'n cael ei gwireddu.

[2] Plismona Deloitte 4.0

Fel eich Comisiynydd, byddaf yn:

- Annog gwasanaethau sy'n sensitif tuag at hil a diwylliant ac sy'n briodol ar gyfer oedran.
- Cefnogi'r Prif Gwnstabl i fuddsoddi mewn cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i gyflenwi gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Hyrwyddo a datblygu gwell cysylltiad cymunedol mewn plismona.
- Lobïo dros drefniadau hirdymor am gyllid i Gymru ar gyfer prentisiaethau.
- Gweithio tuag at y Safon Gydraddoldeb Cenedlaethol allgofnodi'r addewid cydraddoldeb hiliol.
- Sicrhau bod ymgysylltiad yn derbyn y cymorth a'r adnoddau cywir i fod yn effeithiol, a chadw at yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.
- Parhau i weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn hyrwyddo rolau gwirfoddoli, megis yr Heddlu Gwirfoddol, Cadetiaid Heddlu, fforymau ymgysylltu a phaneli craffu.

## Adnoddau

Rwy'n atebol i chi yn y pen draw am reoli cronfa'r heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n rhannu cyfrifoldeb i reoli'r gyllideb blismona yn effeithiol ac i sicrhau gwerth am arian ar eich rhan.

Mae trigolion ardal Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl i'r gwasanaeth (1) fuddsoddi mewn technoleg newydd i fod yn fwy effeithlon, (2) moderneiddio gorsafoedd heddlu i sicrhau eu bod yn ffit ar gyfer y dyfodol a (3) buddsoddi yn yr economi gylchol.

Mae ein gwerth cymdeithasol fel sefydliad yn cael ei fesur yn ôl ein cyfraniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i ardal Dyfed-Powys. Dylai ein hôl troed ariannol fel sefydliad ariannu darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol sy'n diwallu ein hanghenion gwasanaeth a corfforol, ond wrth wneud hynny dylai hefyd gynyddu swyddi lleol, lleihau troseddu, cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chwistrellu arian i'r economi leol.

Mae fy Nhîm Ystadau eisoes wedi ymrwymo i:

o Wella perfformiad amgylcheddol / cynaliadwyedd yr ystâd

o Sicrwydd cost a rhagweld ac adrodd yn effeithiol

o Adrodd cyfalaf a refeniw a stiwardiaeth effeithiol

o Bwysau cyfalaf a buddsoddiad yn y dyfodol sy'n ofynnol ar draws yr ystâd

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

- o Gyflwyno ystâd addas at y diben

Yn ogystal â hyn, bydd yr holl ymarferion caffael sy'n cael eu rhedeg gan yr Heddlu neu fy swyddfa yn cynnwys ffocws ar werth cymdeithasol, gyda dangosyddion allweddol a fydd yn caniatáu imi ddwyn y darparwyr llwyddiannus i gyfrif.

Un o'm cyfrifoldebau allweddol fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw gosod y praesept a chyllideb yr Heddlu bob blwyddyn.

Y dreth a godir drwy drethdalwyr lleol (cyfran o'ch treth gyngor) er mwyn cefnogi gwasanaethau plismona yw'r praesept. Wrth wneud hynny, rwy'n ystyried nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys: gofyniad y Prif Gwnstabl o ran adnoddau yn y dyfodol, lefel y cronfeydd wrth gefn, adborth gan breswylwyr ardal Dyfed-Powys, a chynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd yn y dyfodol.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

Manylion pellach ar adnoddau i'w cynnwys ar y cyd â datblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

| Category | Original Budget 2019/20 | Revised Budget 2019/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Budgets Managed by the PCC** | | | | | | | | |
| OPCC Staff | 707 | 707 | 749 | 767 | 785 | 801 | 817 | 834 |
| OPCC Other Costs | 284 | 284 | 291 | 302 | 313 | 324 | 335 | 347 |
| Commissioning Income | -597 | -597 | -606 | -606 | -606 | -606 | -606 | -606 |
| Commissioning Staff | 96 | 96 | 102 | 105 | 107 | 109 | 111 | 114 |
| Commissioning Non Pay | 1,455 | 1,455 | 1,560 | 1,719 | 1,781 | 1,844 | 1,910 | 1,978 |
| Estates Staff Costs | 714 | 714 | 757 | 775 | 792 | 809 | 825 | 842 |
| Estates Non Pay Costs | 3,936 | 3,967 | 4,046 | 4,109 | 4,192 | 4,262 | 4,414 | 4,572 |
| Estates Income | -656 | -687 | -705 | -730 | -756 | -783 | -811 | -840 |
| **Total Budgets Managed by the PCC** | **5,939** | **5,939** | **6,196** | **6,442** | **6,608** | **6,761** | **6,997** | **7,241** |
| | | | | | | | | |
| **Budget for Chief Constable and Staff under Direction and Control of Chief Constable** | | | | | | | | |
| **Employees** | | | | | | | | |
| Police Officer | 66,852 | 66,850 | 70,074 | 72,361 | 74,155 | 75,922 | 77,536 | 79,224 |
| Police Staff | 24,421 | 23,856 | 26,834 | 27,353 | 27,708 | 27,885 | 28,344 | 28,913 |
| PCSOs | 4,458 | 5,041 | 5,349 | 5,476 | 5,599 | 5,718 | 5,833 | 5,950 |
| Police Pensions | 1,609 | 1,609 | 1,644 | 1,678 | 1,713 | 1,748 | 1,783 | 1,819 |
| Indirect Staff Costs | 1,057 | 1,035 | 1,432 | 1,483 | 1,536 | 1,591 | 1,647 | 1,706 |
| **Total Employee Costs** | **98,397** | **98,392** | **105,333** | **108,351** | **110,712** | **112,863** | **115,144** | **117,613** |
| | | | | | | | | |
| **Running Expenses** | | | | | | | | |
| Premises Related | 354 | 358 | 368 | 382 | 396 | 410 | 425 | 440 |
| Transport Related | 1,964 | 1,960 | 2,038 | 2,095 | 2,128 | 2,205 | 2,284 | 2,366 |
| Supplies and Services | 9,844 | 10,141 | 10,542 | 10,754 | 11,086 | 12,292 | 14,165 | 15,798 |
| Agency and Contracted | 3,449 | 3,429 | 3,914 | 4,063 | 4,557 | 4,925 | 5,049 | 5,229 |
| **Total Running Costs** | **15,611** | **15,889** | **16,862** | **17,295** | **18,167** | **19,832** | **21,923** | **23,833** |
| | | | | | | | | |
| **Income and Specific Grants** | | | | | | | | |
| Income | -4,708 | -4,901 | -5,305 | -5,520 | -5,742 | -5,870 | -6,080 | -6,297 |
| Specific Grants | -8,136 | -8,136 | -8,159 | -8,029 | -7,899 | -7,917 | -7,936 | -7,954 |
| **Total Income and Specific Grants** | **-12,844** | **-13,037** | **-13,464** | **-13,549** | **-13,641** | **-13,788** | **-14,015** | **-14,251** |
| | | | | | | | | |
| **Capital, Reserves and Recharges** | | | | | | | | |
| Capital Charges | 776 | 886 | 1,268 | 2,532 | 4,203 | 5,638 | 6,387 | 7,424 |
| Reserves | -981 | -981 | -603 | -327 | -0 | -0 | -0 | -0 |
| Recharges and Apportionments | 0 | -190 | -190 | -190 | -190 | -190 | -190 | -190 |
| **Total Capital Reserves and Recharges** | **-206** | **-286** | **475** | **2,015** | **4,013** | **5,448** | **6,197** | **7,233** |
| | | | | | | | | |
| **TOTAL CHIEF CONSTABLE'S BUDGET** | **100,958** | **100,958** | **109,205** | **114,112** | **119,250** | **124,355** | **129,248** | **134,428** |
| | | | | | | | | |
| **Total PCC and Chief Constable** | **106,897** | **106,897** | **115,402** | **120,553** | **125,858** | **131,116** | **136,246** | **141,669** |

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

# Gwasanaethau yr wyf yn eu Comisiynu

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn amlinellu nifer o ddyletswyddau allweddol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Yn ogystal â'u rôl blismona graidd, mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gylch gwaith i leihau trosedd ac anhrefn, ac mae ganddynt bwerau comisiynu ac arian i'w galluogi i wneud hyn. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Gomisiynwyr roi grantiau i unrhyw sefydliad neu gorff sydd yn gallu cyflwyno eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol.

Dylai comisiynu ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau am y gwerth gorau, a sicrhau adolygiad parhaus o ran pa un ai a yw gwasanaethau'n llwyddo i fynd i'r afael ag anghenion troseddwyr neu ddioddefwyr trosedd.

Mae fy Strategaeth Gomisiynu'n nodi fy ymagwedd tuag at gomisiynu ac ariannu darpariaeth gwasanaeth yn fanwl. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddorion allweddol, llwybrau comisiynu posibl, trefniadau monitro a llywodraethu, rheoli risg, archwilio a dyrannu cyllideb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi fframwaith comisiynu blynyddol sy'n cyd-redeg yn uniongyrchol â'r Cynllun hwn â'm holl fwriadau comisiynu, ynghyd â'r gyllideb, sy'n gysylltiedig â'm blaenoriaethau strategol. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn yn hysbysu fy mhenderfyniadau o ran pa arian fydd yn cael ei ddarparu i'r heddlu a phartneriaid er mwyn lleihau trosedd ac anhrefn.

Llunnir comisiynu gwasanaethau drwy gydol oes fy Nghynllun er mwyn sicrhau bod gwasanaethau dal yn gyson â'm blaenoriaethau strategol.

Byddaf yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau proses gynllunio agored a thryloyw sy'n darparu rhesymwaith clir dros benderfyniadau;
- Sicrhau bod y broses gomisiynu a'r trefniadau monitro'n gymesur â chost y gwasanaeth neu'r gweithgaredd a ddarperir;
- Sicrhau gwerth am arian drwy weithio mewn partneriaeth ar flaenoriaethau a rennir a chanlyniadau cynaliadwy;
- Cynnal ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sicrhau bod effaith yr arian sy'n cael ei wario'n cael ei mesur a'r gwerth yn cael ei asesu; a
- Gwobrwyo cytundebau tymor canolig a thymor hir er mwyn sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth gwasanaeth.

Yn ystod fy nhymor cyntaf, sefydlais Fwrdd Ymgynghorol Comisiynu, sy'n fy nghefnogi drwy weithredu fel y corff adolygu mewn perthynas â dyfarnu arian grant a thendro gwasanaethau. Mae rôl y Bwrdd yn cynnwys sicrhau bod elw ar fuddsoddiadau a gwerthuso effaith gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar weithgarwch craffu ac yn fy nghefnogi i ddal darparwyr gwasanaeth i gyfrif.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

Mae nifer o brosesau mewn grym sy'n monitro gwerth a chanlyniadau'r gwasanaethau rwy'n eu hariannu. I ategu hyn, cynhelir archwiliad pen desg bob blwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynir, ynghyd ag archwiliad manylach ar gyfer y gwasanaethau hynny lle mae cytundebau ar fin dod i ben, er mwyn hysbysu cynlluniau ail-gomisiynu.

Mae'r gyllideb gomisiynu gyfan yn cynnwys grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr ynghyd â dyraniad o'm cyllid craidd. Pennir Grant Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar boblogaeth.  Yn ogystal â hyn, ceisiaf sicrhau cyllid ychwanegol yn seiliedig ar dystiolaeth o angen, er enghraifft i gynorthwyo gyda'r galw a'r pwysau cynyddol a wynebir gan ddarparwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod pandemig Covid-19.

Byddaf hefyd yn sicrhau bod arian ar gael ar gyfer cymunedau, partneriaid ac elusennau drwy grantiau amrywiol i gefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at gyflenwi fy mlaenoriaethau ac yn gwella ansawdd bywyd ein preswylwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau rwy'n eu comisiynu ar fy ngwefan.

# Sut fedrwch chi fy nghefnogi i gyflenwi'r Cynllun hwn

Mae fy ngwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig o ran fy helpu i gyflenwi fy ngweledigaeth. Maen nhw'n fy nghefnogi i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu'n broffesiynol, cyfreithlon a moesegol drwy adolygu gwasanaethau a ddarperir gan yr Heddlu. Cefnogir pob gwirfoddolwr â hyfforddiant wrth eu gwaith, cynllun cyfeillio, treuliau parod a phwynt cyswllt yn fy swyddfa. Maen nhw hefyd yn derbyn credydau amser yn wobr o dan y cynllun Tempo. Gellir gwario'r credydau hyn ar amryw o weithgareddau, gwasanaethau a chynnyrch yn wobr am eu hymrwymiad.

## Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu cael Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Mae fy Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, sydd wedi derbyn achrediad aur, yn rhoi sicrwydd annibynnol imi fod carcharorion yn cael eu trin yn briodol a theg. Maen nhw'n ymweld â gorsaf heddlu lleol mewn parau, yn ddirybudd, ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i wirio ar les carcharorion yn y ddalfa, a'r amodau o dan ba rai y'u cedwir. Mae fy Nghynllun hefyd yn un o lond llaw o gynlluniau yng Nghymru a Lloegr sy'n adolygu cofnodion dalfa carcharorion agored i niwed yn rheolaidd, gan roi cyfle i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ystyried taith gyfan garcharor drwy'r ddalfa.

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

Os nad ydych chi'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol, yn 18 oed neu hŷn, yn byw neu'n gweithio yn ardal Dyfed-Powys, ac mae gennych ddiddordeb mewn cydraddoldeb a hawliau dynol, gallai Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd fod yn rôl wirfoddol ddelfrydol i chi.

## Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid

Mae aelodau annibynnol o'r gymuned leol yn edrych ar les cŵn Heddlu Dyfed-Powys a'r amodau o dan ba rai y maent yn cael eu cadw, eu hyfforddi, eu cludo a'u lleoli. Maen nhw'n rhoi hyder i mi, a'r cyhoedd, fod cŵn yr heddlu'n derbyn gofal ac yn cael eu trin yn ddyngarol, moesegol a thryloyw.

Mae'n rhaid i Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid fod yn 18 oed neu hŷn a byw neu weithio yn ardal Dyfed-Powys, a rhaid bod ganddynt wybodaeth gadarn am faterion lles anifeiliaid.

## Panel Sicrhau Ansawdd

Mae'r Panel, sy'n cynnwys grŵp o hyd at 15 preswylydd gwirfoddol, yn cwrdd bob yn ail fis er mwyn adolygu cofnodion wedi'u hap samplu o ryngweithiadau rhwng y cyhoedd a'r heddlu, gan gynnwys: achosion stopio a chwilio, digwyddiadau lle mae grym wedi'i ddefnyddio, troseddau casineb, trin galwadau a thrin cwynion. Mae'r Panel yn darparu mewnwelediadau unigryw o safbwynt lleygwr ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd.

Mae croeso i oedolion 18 oed neu hŷn sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Dyfed-Powys ac sydd ddim yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol wneud cais am le ar fy Mhanel Sicrhau Ansawdd.

## Llysgenhadon Ifainc

Mae fy Fforwm Ieuenctid yn cynnwys Llysgenhadon 11–18 oed ac yn cynrychioli amrediad o sefydliadau a grwpiau ieuenctid cymunedol o bob cwr o ardal Dyfed-Powys. Mae'r Fforwm yn fy helpu i greu perthynas â fforymau, cynghorau ieuenctid a grwpiau ieuenctid sy'n bodoli eisoes ar draws y rhanbarth, llawer ohonynt sydd eisoes yn cael eu cynrychioli ar fy Fforwm, fel bod pobl ifainc yn medru hysbysu fy mhenderfyniadau mewn perthynas â phlismona a throseddu.

Yr wyf bob amser yn croesawu pobl ifainc 11-18 oed sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys neu Sir Benfro i ddod yn un o'm Llysgenhadon.

## Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Mae'r ychwanegiad diweddaraf i'm grwpiau gwirfoddol, sef fy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, yn cynnwys cronfa ddata o dros 80 dioddefydd trosedd o bob cwr o ardal Heddlu Dyfed-Powys. Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a phartneriaid eraill, mae Aelodau'r Fforwm yn fy

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

nghefnogi i roi dioddefwyr yng nghanol y system cyfiawnder troseddol. Mae eu barn yn fy helpu i sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad personol yn dylanwadu ar ddatblygu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr trosedd a chraffu arnynt.

Anogir unrhyw ddioddefwyr trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol (fel y diffinnir o dan y Cod Dioddefwyr), ac unigolion sydd wedi cefnogi dioddefydd trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n agos atynt drwy'r broses, i ymuno â'r Fforwm.

# Cyd-destun

## Ein hardal

Ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cwmpasu dros ddau draean o dirwedd Cymru ac yn gyfrifol am blismona pedair ardal awdurdod lleol, sy'n cynnwys dau fwrdd iechyd, dau borthladd fferi ryngwladol, dau barc cenedlaethol a dros 8500 milltir o ffyrdd.

## Ein pobl

Yn ôl data'r Cyfrifiad diwethaf (2011), poblogaeth breswyl y pedair sir a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys oedd 515,114. Gwyn Prydeinig yw'r boblogaeth yn bennaf, gydag ychydig dros 2% o'r boblogaeth yn grwpiau pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae Heddlu Dyfed-Powys dal yn anelu i wella amrywiaeth ei weithlu er mwyn sicrhau ein bod ni'n fwy cynrychioladol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Erbyn diwedd Mawrth 2021, nododd 16 (1.3%) o'n swyddogion a 6 (0.64%) o'n haelodau staff nad oeddent yn wyn eu croen. Mae 47% o gyfanswm y gweithlu yn fenywod, ond mae menywod yn cael eu cyflogi'n bennaf fel staff yr heddlu (62%, o gymharu â 35% o swyddogion).

Mae 32% o'n cymunedau'n medru siarad Cymraeg; 18.6% ym Mhowys, 47.4% yng Ngheredigion, 43.9% yn Sir Gaerfyrddin a 19.3% yn Sir Benfro.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21, roedd 1,860 (81%) o weithlu Heddlu Dyfed-Powys yn medru siarad Cymraeg hyd lefel sylfaenol. Roedd 32% yn medru cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg, ac roedd 20% yn medru sgwrsio'n llawn yn Gymraeg.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu poblogaeth sy'n heneiddio. Yn ôl data'r Cyfrifiad diwethaf (2011), mae bron i hanner cyfanswm y boblogaeth breswyl yn 45 oed ac yn hŷn, gyda22% o'r boblogaeth breswyl dros 65 oed.

Ar hyn o bryd, mae gan Heddlu Dyfed-Powys 1,194 Swyddog Heddlu, 794 aelod Staff Heddlu, 85 Cwnstabl Gwirfoddol, 144 Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu a 45 Gwirfoddolwr.

Mae'r niferoedd hyn yn parhau i dyfu wrth i'r Heddlu gychwyn Ymgyrch Uplift ar ôl degawd o lymder. Ymgyrch Uplift yw ymateb y gwasanaeth heddlu i darged Llywodraeth y DU, sef recriwtio 20,000 o Swyddogion Heddlu ychwanegol erbyn

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

2023, a oedd yn cyfateb i 42 Swyddog ychwanegol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn 2020/21.

## Rolau a chyfrifoldebau

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae gennyf nifer o ddyletswyddau statudol, fel yr amlinellir isod:

- Gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer yr Heddlu.
- Cynrychioli ac ymgysylltu gyda chymunedau a gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throsedd.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol ehangach yn effeithiol ac yn effeithlon wrth gadw pobl yn ddiogel, cefnogi dioddefwyr a dod â phobl gerbron llys.
- Comisiynu gwasanaethau i helpu gwneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi dioddefwyr a phobl eraill sy'n agored i niwed.
- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am drosglwyddo gwasanaethau heddlu yn effeithiol, yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth i'ch galluogi i asesu fy mherfformiad a pherfformiad Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys.
- Penodi, ac os oes angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl.
- Ymdrin â chwynion swyddogol yn erbyn y Prif Gwnstabl (blaenorol neu gyfredol) .
- Gosod praesept blynyddol yr heddlu a chyllideb yr heddlu.
- Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu ac Adroddiad Blynyddol.
- Gweithio'n agos â'r Panel Heddlu a Throseddu i'w caniatáu i gefnogi a chraffu'n effeithiol ar waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
- Mae Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau bod y cyhoedd yn ymddiried ynom i weithio gyda'n gilydd fel un, gan ddarparu dull cydlynol o ymdrin â'r system gorfodaeth cyfraith. Fel rhan o hyn, mae'n ofynnol i mi ddarparu datganiad blynyddol ar berfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn mesurau troseddau a phlismona cenedlaethol Llywodraeth y DU.

Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am ddiogelu ein cymunedau drwy ddarparu plismona effeithlon, effeithiol ac ymatebol. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol, rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu, ac am ymchwilio i gwynion a materion ymddygiad yn erbyn swyddogion (islaw rheng y Prif Gwnstabl) a staff yr heddlu.

Mae'r Panel Heddlu a Throseddu yn banel annibynnol wedi ei ffurfio o aelodau a enwebwyd gan awdurdodau lleol ac aelodau annibynnol.

Bydd y Panel yn:

- Craffu ar benderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar ran y cyhoedd.
- Cefnogi'r Comisiynydd i weithredu ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Adolygu a gwneud argymhellion ar ddrafftiau Cynllun Heddlu a Throseddu ac Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd.



DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

- Adolygu a gwneud argymhellion ar gynigion mewn perthynas â'r praesept heddlu a'r gyllideb ddrafft blynyddol.
- Ymdrin â chwynion yn erbyn y Comisiynydd a'u datrys.
- Chynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer penodiadau arfaethedig swyddogion statudol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd.

## Ynghylch y Cynllun hwn

Wrth ffurfio'r Cynllun hwn, yr wyf wedi ystyried tirwedd genedlaethol (Cymru a'r DU yn ehangach) plismona a throsedd drwy ymgynghori ac ymchwilio manwl, gan gynnwys:

- Blaenoriaethau Llywodraethau Cymru a'r DU;
- Cynllun Blynyddol yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol;
- Ffyrdd o Weithio a Nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Ystyried dogfennau plismona cenedlaethol (Cymru a'r DU);
- Fframwaith asesu Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi.
- Mewnwelediadau o Felinau Trafod plismona ac arferion da o feysydd eraill.

Rwyf i hefyd wedi ystyried blaenoriaethau, adnoddau ac anghenion lleol, gan gynnwys:

- Adborth gan y cyhoedd.
- Dogfennau strategol allweddol Heddlu Dyfed-Powys.
- Blaenoriaethau partneriaid lleol, gan gynnwys rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Cynllunio Ardal, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel-Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Cynhaliodd fy swyddfa broses ymgynghori fanwl er mwyn hysbysu fy mlaenoriaethau, gan gynnwys:

- Preswylwyr a busnesau o fewn ardal Dyfed-Powys drwy'r holiadur praesept blynyddol ym mis Rhagfyr 2020.
- Detholiad o uwch reolwyr a rheolwyr canol o fewn Heddlu Dyfed-Powys, drwy weithdai, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Tri Gorwel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Grwpiau lleiafrifol sydd â llai o lais drwy sesiynau a hwyluswyd.
- Partneriaid a rhan ddeiliaid allweddol drwy wahoddiad personol i ddefnyddio pecyn arweiniad i ymgynghoriad.
- Y cyhoedd yn ehangach drwy arolwg ar-lein a chopi caled a hyrwyddwyd drwy gyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol.

Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain i nodi fy ngweledigaeth, blaenoriaethau a gwerthoedd ar gyfer plismona a throsedd ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys ar gyfer y tair blynedd nesaf:



DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

| Fy Ngweledigaeth |
|---|
| **Dyfed-Powys o gymunedau diogel** |

| Fy Mlaenoriaethau | | |
|---|---|---|
| **Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi** | **Mae niwed yn cael ei atal** | **Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol** |

| Gweithredu a galluogi | | | |
|---|---|---|---|
| **Cydweithio** | **Bod yn atebol** | **Bod yn gadarn** | **Ymgysylltu'n eang** |

DRAFT - SHARED IN CONFIDENCE

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Observations on Policing Plan Consultation for Dyfed Powys Police and Crime Panel

28 June 2021.

**Preamble**

1.1 Preparation of the next policing plan has started, with a presentation on the consultation to the panel on Friday 19 June. The current timetable was shared, with a likely completion date for February / March 2022. The Commissioner shared key points on the current delivery of the policing service and invited panel members to contribute individually to the survey monkey information collection exercise. He intended taking a three tier approach to consultation and shared his initial ideas on content, including an increased emphasis on victims.

1.2 The panel recognises that the commissioner has a legal requirement to prepare a Dyfed Powys Police and Crime Plan arising from Section 5 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 and to issue the plan to police and crime panel and that the setting of policing priorities in this new plan will be the basis for the commissioner to hold the new Chief Constable to account.

1.3 Therefore, the panel acknowledges the responsibilities of the Commissioner in setting the priorities in the plan and his mandate for doing so.

1.4 The panel is pleased to have early engagement with the Commissioner and shared insights into the consultation plans and the preparation of the policing plan and its content. As the panel comprises elected members with a deep understanding of local needs and priorities, they will respond to the consultation individually reflecting the views of their communities. Similarly, the two independent members will contribute individually. This paper is therefore intended as a collective response from the panel on more general aspects of the Plan.

**2. Consultation Response**

The collective response from the Panel focusses on issues of presentation, accessibility, and accountability, rather than the specific priorities that should be included in the plan. The Panel believes that in formulating his plan the Commissioner should ensure that

2.1 The plan explains the respective roles of the commissioner and the chief constable, with the process of accountability clear.

2.2 The plan seeks to inform people about the main threats to individuals and communities in the geographical area of Dyfed Powys in a proportionate way.

2.3 The plan sets out why each priority has been selected and included (eg. If tackling fraud and cybercrime is a priority the plan should explain how much of a threat it is to residents in the force area.)

2.4 Each priority is be backed by measurable and realistic performance targets against which achievements can be measured.

2.5 Each priority is be linked to an explanation of its financial implications - including the likely cost and how it will be funded. We believe that this will improve the understanding of local communities and help inform the public debate about the funding of policing, and other related services, such as local mental health services.

2.6 The presentation of the plan and its priorities is clear, concise and easy for the public to understand and avoids the use of jargon.

Prof Ian Roffe JP

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**05/11/21**

| PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD |
|---|
| **Yr argymhellion/penderfyniadau allweddol y mae eu hangen:**<br><br>Ystyried y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd a gwneud y fath adroddiad neu argymhellion ag y gwêl y Panel yn briodol. |
| **Rhesymau:**<br><br>Mae dyletswydd statudol ar y Panel i wneud hyn. |


| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: |
|---|---|---|
| Robert Edgecombe | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 01267 224018<br><br>Cyfeiriad e-bost:<br><br>rjedgeco@carmarthenshire.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 05/11/21

| DECISIONS TAKEN BY THE COMMISSIONER | |
|---|---|
| Section 28(6) of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 requires the Panel to review or scrutinise decisions made and actions taken by the Police and Crime Commissioner in connection with the discharge of his functions and make reports and recommendations to the Commissioner in relation to the discharge of those functions.<br><br>Any such reports or recommendations must be published by the Panel. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**

**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)*

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| **Host Authority File** | **PACP-040** | **County Hall, Carmarthen** |

**Penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd (gan gynnwys y rhai a wnaed yn y Bwrdd Plismona) rhwng 23ain o Orffennaf a 18fed o Hydref.**

| Teitl & Chrynodeb | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Rhodd elusennol i Fforwm Llwynhendy**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno ar y penderfyniad i roddi rhodd o £500 i Fforwm Llwynhendy.<br><br>Byddai hyn yn ei gynorthwyo i barhau i gyflenwi ei waith hollbwysig yn y gymuned.<br>*(Penderfyniad wnaed yn y chwarter blaenorol).* | 16eg o Fehefin 2021 |
| **Arian cyfatebol tuag at y prosiect Strydoedd Mwy Diogel 2**<br><br>Wnaeth y **CHTh** cytuno **ar y penderfyniad** i **gymeradwyo cyfraniad o £21,834 o arian cyfatebol er mwyn cyflwyno Cronfa Strydoedd Mwy Diogel**<br>2 o'r Gronfa Wrth Gefn Ailhyfforddi Gyrwyr.<br><br>Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau cymdogaeth, gan gynnwys troseddau cerbydau, byrgleriaethau, lladradau a dwyn wrth unigolion o fewn yr ardaloedd a nodwyd, sef Tyisha 2 ac Elli 2.<br>*(Penderfyniad wnaed yn y chwarter blaenorol).* | 16eg o Fehefin 2021 |
| **Rhodd elusennol i Ganolfan Deuluoedd Sant Paul**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno **ar y penderfyniad** i **roi rhodd o £1000 i Ganolfan Deuluol Sant Paul**.<br><br>Byddai hyn yn ei gynorthwyo i barhau i gyflenwi ei waith hanfodol yn y gymuned. Cynigir rhoi £1000 o'r gyllideb Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo, sy'n galluogi CHTh i wneud rhoddion elusennol o fewn y gymuned.<br>*(Penderfyniad wnaed yn y chwarter blaenorol).* | 24ain o Fehefin 2021 |
| **Arian cyfatebol tuag at y prosiect Cronfa Troseddwyr**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno ar y penderfyniad i **gymeradwyo cyfraniad Mewn partneriaeth â Chanolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn, Gwasanaeth Trais Domestig Calan, Threshold DAS, Heddlu Dyfed-Powys a Seicoleg Fforensig y DU**, **o £110,000 o arian cyfatebol o'r Gronfa Wrth Gefn Ailhyfforddi Gyrwyr er mwyn cyflwyno'r Prosiect Troseddwyr yn 2022/23.**<br><br>Bydd y prosiect yn caniatáu ar gyfer cyflenwi amryw o ymyriadau ar gyfer troseddwyr a chymorth cofleidiol ar gyfer eu teuluoedd, gan anelu i leihau nifer yr achosion cam-drin domestig a stelcio a'i effaith.<br>*(Penderfyniad wnaed yn y chwarter blaenorol).* | 29ain o Fehefin 2021 |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyo prosiect wythnos Troseddau Casineb**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno ar y penderfyniad i cymeradwyo rhodd o £8620 o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau tuag at y prosiect Wythnos Troseddau Casineb.<br><br>Mae Mewn Cymeriad wedi cyflwyno cais grant i gyflwyno drama un person awr o hyd a fydd yn teithio o gwmpas ysgolion uwchradd targedig yn ardal heddlu Dyfed-Powys am wythnos yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2021.<br>*(Penderfyniad wnaed yn y chwarter blaenorol).* | 29ain o Fehefin 2021 |
| **Cynllun Peilot Dillad Gwrth-rwyg – Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno ar y penderfyniad i cymeradwyo bod y Gynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cefnogi'r cynllun peilot dillad gwrth-rwyg.<br><br>Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi ymgymryd ag adolygiad thematig o'r defnydd o ddillad gwrth-rwyg yn nalfa'r heddlu. Mae adroddiadau arolygiaeth yn datgelu pryder cyson â'r defnydd o ddillad gwrth-rwyg yn y ddalfa. Mae trosolwg cryno o faterion a gofnodwyd fel a ganlyn | 27ain o Orffennaf 2021 |
| **Parhau i ariannu gwaith atal TTIA yn 2021/22**<br><br>Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, argymhellir bod CHTh yn ymrwymo'r lefel ariannu presennol ar gyfer gweddill y flwyddyn 2021/22, sydd gyfystyr â £90,000 ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2021 – 31 Mawrth 2022. Argymhellir ymhellach fod CHTh yn lleihau'r ymrwymiad o 50% i gyfraniad o £90,000 ar draws y 4 TTIA ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 o ystyried y dirwedd ariannu ehangach. | 29ain o Orffennaf 2021 |
| **Cynllun i adeiladu yn Dafen**<br><br>Wnaeth y CHTh penderfynu cefnogi'r penderfyniad i symud ymlaen efo'r cynllun i adeiladu yn Nafen **a**m y **gost o £18,643,370.25** a rhoddi contract o gost **£16,998,380.25** i **Willmott Dixon.**<br><br>Wnaeth y penderfyniad i symud ymlaen efo'r adeiladu y cael ei wneud ar ôl ystyriaeth o 5 gwahanol opsiynau. | 28ain o Orffennaf 2021 |
| **Rhodd elusennol i Daith Feiciau Undod yr Heddlu**<br><br>Wnaeth y CHTh c**ymeradwyo**'r dewis i **roi rhodd o £2000 i Daith Feiciau Undod yr Heddlu**<br><br>Digwyddiad elusennol yw Taith Feiciau Undod yr Heddlu a gynhelir yn flynyddol. Mae cynyddu ymwybyddiaeth ac yn | 30ain o Orffennaf 2021 |

| | |
|---|---|
| anrhydeddu swyddogion sydd wedi marw wrth gyflawni eu dyletswydd. Mae'n cynnwys swyddogion o Gymru a Lloegr yn beicio ledled y wlad er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen gofrestredig Care of Police Survivors, sydd wedi ymrwymo i helpu teulu swyddogion heddlu sydd wedi colli eu bywydau ar ddyletswydd. Mae CHTh wedi derbyn cais am rodd ar gyfer yr elusen bwysig hon, ac argymhellir ei fod yn rhoi £2000. | |
| **System Rheoli Cysylltiadau**<br><br>Wnaeth y CHTh cytuno ar y penderfyniad i  y dylid dyfarnu contract gwerth £3.58m dros gyfnod o 7 mlynedd i Airwave Solution Ltd. ar gyfer System Rheoli Cysylltiadau.<br><br>Byddai amserlenni cyflawni sy'n gysylltiedig â rhyddhau taliadau yn cael eu cynnwys yn y contract. | 7fed o Fedi 2021 |
| **Traffig ac arolygon cyflymder**<br><br>Cymeradwyodd y CHTh, mewn cytundeb â'r PG Dros Dro, y dylid dyfarnu contract cytundeb fframwaith tair blynedd i Intelligent Data Systems, Sky High (Tracsis) a Severnside ar gyfer darparu cyfrifiadau traffig ac arolygon cyflymder. | 7fed o Fedi 2021 |
| **Cytundeb i fynd ymlaen â Gwaith Diogelwch Tân**<br><br>Roedd y CHTh mewn cytundeb ac  penderfynodd y dylid rhoi y contractwr HMBS swm newydd o £461,173.97. | 14eg o Fedi 2021 |
| **Bodlonrwydd dioddefwyr gyda Heddlu Dyfed-Powys**<br><br>Wnaeth y CHTh penderfynu caniatáu i'r cytundeb ar gyfer bodlonrwydd dioddefwyr gyda Heddlu Dyfed-Powys ddod i ben yn dilyn ei bwynt gadael presennol, sef 31 Mawrth 2022.<br><br>Ym mis Ebrill 2017, ymrwymodd CHTh i gytundeb gyda Heddlu Dyfed-Powys, gan ddarparu £20,000 y  flwyddyn ar gyfer ymgymryd â gofynion Dychweliad Data Blynyddol y Swyddfa Gartref ar gyfer arolygu  dioddefwyr trosedd a cham-drin domestig. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod CHTh wedi etifeddu dyletswydd yr Awdurdod Heddlu blaenorol wrth gychwyn y swydd er mwyn sicrhau yr ymgymerwyd â'r swyddogaeth hon. | 20fed o Fedi 2021 |
| **Estyn Cytundeb Goleudy**<br><br>Fel yr amlinellir yng nghofnod penderfyniad DLl 189, mae CHTh wedi estyn y cytundeb blaenorol gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn darparu gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr. Daw'r estyniad presennol i ben ar 31 Mawrth 2022.<br><br>Mae cynllun gweithredu mewn grym ar hyn o bryd o dan reolaeth Heddlu Dyfed-Powys a Bwrdd Dioddefwyr a Thystion y BCTLl yn dilyn adolygiad annibynnol i wasanaeth dioddefwyr Goleudy, ynghyd â Phrosiect Gweithredu Dioddefwyr Heddlu Dyfed-Powys. Mae Goleudy hefyd yn gysylltiedig â chynllunio ar gyfer | 20fed o Fedi  2021 |

| | |
|---|---|
| gweithredu'r prosiect Pen i Ben newydd, sy'n anelu i wella gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr. | |
| **Estyn y Cytundeb Ymgynghorol Trais Domestig Annibynnol**<br><br>Wnaeth y CHTh c**ymeradwyo**'r penderfyniad i estyn y cytundeb presennol, a gomisiynir ar y cyd, ar gyfer darparu gwasanaeth ymgynghorol trais domestig annibynnol i 31 Mawrth 2023.<br><br>Byddai'r cyfnod estyniad 12 mis olaf a ganiateir o fewn y cytundeb presennol yn dwyn y dyddiad y daw'r cytundeb i ben i 31 Mawrth 2023. Dylai cynllun prosiect gyd-fynd â'r estyniad hwn, sy'n amlinellu amserlenni ar gyfer dadansoddi galw, adolygu'r fanyleb ac ymarfer tendr llawn. Mae'r papur isod yn cynnwys drafft o'r cynllun prosiect. | 20fed o Fedi 2021 |
| **Rhodd Ariannol i Fugeiliaid Stryd Aberhonddu**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo'r penderfyniad i **roi rhodd o £300 i Fugeiliaid Stryd Aberhonddu er mwyn ariannu hyfforddiant Ascension Trust.**<br><br>Mae Bugeiliaid Stryd wedi bod yn gweithredu yn Aberhonddu ers 5 mlynedd. Mae'r fenter yn darparu gwarcheidwaid effeithiol ar y stryd ac yn atal trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Mae ymgysylltiad rhwng y cyhoedd, yr heddlu a bugeiliaid stryd yn sicrhau bod unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu, a bod llai o deuluoedd yn cael eu heffeithio gan effeithiau ehangach niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y Bugeiliaid Stryd yn amlwg iawn, yn amhleidiol, ac yn cryfhau'r cyfle i ddinasyddion helpu i gyflenwi plismona. | 21ain o Fedi 2021 |
| **Gwaith Seilwaith Trydanol HQ**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo contract i Highland Services am gost o £599,277.27 am y waith Seilwaith Trydanol yn HQ. | 28ain o Fedi 2021 |
| **Gwaith diogelwch tân awdurdod tân ar draws yr Awdurdod**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo bod y sefydliad yn mynd ymlaen â'r contractwr llwyddiannus HMBS ar y swm newydd o £461,173.97 ar gyfer darparu gwaith diogelwch tân ar draws yr Awdurdod Tân ac Achub. | 28ain o Fedi 2021 |
| **Contractau Cerbydau Cenedlaethol**<br><br>Wnaeth y CHTh cymeradwyo contract ar gyfer adnewyddu'r Contractau Cerbydau Cenedlaethol, ar gost o £1,936,122.69. | 28ain o Fedi 2021 |

| | |
|---|---|
| **Telemateg Cerbydau**<br><br>Cytunodd CHTh i roi cytundeb £68,316.23 i gwmni Light Bulb Analytics ar gyfer darpariaeth trwyddedau Lleoli a Thelemateg Cerbydau. Lluniwyd y cytundeb i wireddu gwelliannau mewn effeithlonrwydd cerbydau drwy welliant mewn ymddygiad gyrwyr. Mae'r ymagwedd hon yn cyflwyno manteision ochr megis cerbydau'n treulio llai a gwell dealltwriaeth o'r defnydd o gerbydau | 18fed o Hydref 2021 |
| **Teiars**<br><br>Cytunodd CHTh i roi cytundeb ar gyfer cyflenwi teiars i gwmni Goodyear Tyres UK Cyf am gyfnod o 4 blynedd. Arweiniwyd cystadleuaeth yn genedlaethol gan BlueLight Commercial o fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron ar gyfer cyflenwi a gosod teiars a chynnyrch cysylltiedig ar gyfer Prynwyr Golau Glas (y gwasanaethau brys). | 18fed o Hydref 2021 |
| **Cytundeb cydweithio Adran 22A Consortiwm Arfordir y Gorllewin**<br><br>Yn amodol ar ddigwyddiadau terfynol, cytunodd CHTh a'r PG i lofnodi'r cytundeb cydweithio mewn perthynas â chaffael a chyflenwi gwasanaethau fforensig a dadansoddol i Gonsortiwm Arfordir y De a'r Gorllewin. | 18fed o Hydref 2021 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**05/11/21**

| TREFNIADAU ARIANNU GRANT Y COMISIYNYDD |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br><br>Ystyried yr adroddiad gan y Comisiynydd a gwneud unrhyw adroddiad neu argymhellion y mae'r Panel yn credu eu bod yn addas. |
| **Y rhesymau:**<br><br>Gofynnodd y Panel am adroddiad gan y Comisiynydd ar y mater hwn yn ei gyfarfod diwethaf |



| | | |
|---|---|---|
| Awdur yr Adroddiad:<br><br>Robert Edgecombe | Swydd:<br><br>Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | Rhif Ffôn<br><br>01267 224018<br><br>Cyfeiriad e-bost:<br><br>rjedgeco@sirgar.gov.uk |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**EXECUTIVE SUMMARY**
**DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL**
**05/11/21**

| **PCC GRANT FUNDING ARRANGEMENTS** | |
|---|---|
| At its Annual General Meeting on the 30th July 2021 members of the Panel requested that the Commissioner provide, at the next panel meeting, a report setting out the arrangements made for the administration and distribution of grant funding.<br><br>A copy of this report is attached. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**

**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)*

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| **Host Authority File** | **PACP-040** | **County Hall, Carmarthen** |

Ymateb gan

Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

i

Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Trefniadau Ariannu Grant

Tachwedd 2021

**Trefniadau Ariannu Grant y Comisiynydd**

**Trosolwg**

Mae'r Fframwaith Comisiynu (sydd ar gael isod ac ar wefan y Comisiynydd - https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/) yn amlinellu blaenoriaethau ac egwyddorion allweddol gweithgarwch comisiynu. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ddyfarnu grantiau fel un o'r llwybrau ar gyfer darparu.

Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Comisiynu, a'i rôl yw gweithredu fel y corff adolygu mewn perthynas â dyfarnu cyllid grant a thendro gwasanaethau. Mae eu rôl yn cynnwys sicrhau bod yna elw ar fuddsoddiad a gwerthuso effaith gwasanaeth/prosiect. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar weithgarwch a dwyn darparwyr i gyfrif.

Yn 2020, bu'r Bwrdd yn craffu ar broses ar gyfer asesu a dyfarnu cyllid grant gan y Comisiynydd, gan gynnwys defnyddio matrics sgorio.

Mae gan y Comisiynydd nifer o ffrydiau incwm y gellir eu defnyddio i ariannu prosiectau ac adnoddau ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae gan rai o'r rhain ddibenion penodol a amlinellir isod, ynghyd ag enghreifftiau o sut y mae'r cyllid hwn wedi'i ymrwymo:

| Ffynhonnell incwm | Diben | Enghreifftiau o wariant |
|---|---|---|
| *Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd* | Cyfraniadau i elusennau /grwpiau cymunedol | • Rhoddion i leoliadau cymunedol a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau Swyddfa'r Comisiynydd<br>• Rhoddion i elusennau bach lleol |
| *Cynllun Cymell Adfer Asedau / Deddf Enillion Troseddu* | Cyfraniadau i wella a chefnogi ymchwiliad ariannol a chyfraniadau tuag at elusennau / grwpiau cymunedol | • Ymchwilydd Ariannol<br>• Swyddog Diogelu Twyll |
| *Fforffedu* | Cefnogi prosiectau sy'n gwella gorfodaeth parthred â chyffuriau a masnachu mewn pobl | Gweithgaredd gweithredol cyffuriau Covid |
| *Ailhyfforddi Gyrwyr* | Dim meini prawf uniongyrchol ar gyfer cyfraniadau ond dylai canran o'r cronfeydd wrth gefn gyfrannu tuag at brosiectau diogelwch ar y ffyrdd | • Ymgyrchoedd a gweithrediadau Diogelwch ar y Ffyrdd<br>• Cyllidebu Cyfranogol<br>• Prosiectau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol<br>• Prosiectau Troseddau Ieuenctid |
| *Cronfeydd Wrth Gefn y Rhaglen Ymyrraeth Gyffuriau* | Cyfraniadau tuag at brosiectau sy'n ymwneud ag atal a chefnogi cyffuriau | Aros am gynigion prosiect |

Darperir adroddiad sy'n amlinellu balans, gwariant ac ymrwymiadau cyfredol y gyllideb yn erbyn pob un o'r ffrydiau incwm uchod i Dîm Gweithredol y Comisiynydd bob pythefnos. Cynhelir cyfarfod misol hefyd rhwng y Comisiynydd, y Prif Swyddog Cyllid, Cyfarwyddwr Comisiynu a'r Rheolwr Ariannu Allanol i drafod y cyllid ac unrhyw berthynas â'r gyllideb Gomisiynu.

**Buddsoddiadau**

Drwy'r broses a gymeradwywyd, llwyddodd y Comisiynydd i fuddsoddi swm sylweddol yng nghymunedau Dyfed-Powys yn y flwyddyn ariannol 2020/21 ac i flwyddyn ariannol gyfredol 2021/22. Isod ceir dadansoddiad o'r cyfansymiau a fuddsoddir o bob cyllideb y mae'r Comisiynydd yn gyfrifol amdani –

| Cyllideb | Swm a fuddsoddwyd 20/21 | Swm a fuddsoddwyd 21/22 (hyd yma) |
|---|---|---|
| Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd | £ 8,598.00 | £3150.00 |
| ARIS / POCA | £100,666.50 | £59,389.50 |
| Fforffedu | £20,064.20 | - |
| Cronfeydd Wrth Gefn Ailhyfforddi Gyrwyr | £386,120.21 | £151,309.00 |
| Cronfeydd wrth gefn Ymyrraeth Cyffuriau | £40,000.00 | £40,000.00 |
| | £ 555,449.41 | £ 253,848.90 |

Mae'r dogfennau a fewnosodwyd isod yn tynnu sylw at y manylion o ran y buddsoddiad, gan rannu ymgeisydd a diben y buddsoddiad fesul prosiect -

20-21 Budget investment Panel re|

21-22 Budget Investment Panel re|

Wrth ystyried y ceisiadau, mae sawl ffactor yn cael eu hystyried, sy'n arwain at sgorio'r ceisiadau. Mae Atodiad A yn enghraifft o'r templed sgorio a ddefnyddir pan ystyrir bod ceisiadau am gyllid a gyflwynwyd dros £500.

O ran mesur effaith y buddsoddiad gan y Comisiynydd, gofynnir i bob noddwr prosiect ddarparu adroddiad byr o ran y buddsoddiad a sut y bu'r cyllid o fudd i'r gymuned a'r sefydliad. Mae'r Comisiynydd yn cynnal diwrnodau ymgysylltu'n rheolaidd ac ymweliadau pwrpasol â sefydliadau a ariennir i weld y gwahaniaeth y mae ei fuddsoddiad wedi'i wneud ar lawr gwlad.

Isod ceir enghraifft o adroddiad gwerthuso gan Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe a dderbyniodd gyllid i ddatblygu prosiect chwaraeon ieuenctid yn Llanelli a Doc Penfro. Yn dilyn llwyddiant y prosiectau hyn a'r adroddiad gwerthuso, gwnaed buddsoddiad pellach gan y Comisiynydd i'r Sefydliad gan ganiatáu iddynt gyflwyno prosiect Kicks ar draws 5 ardal arall ledled Dyfed-Powys.

Swans-Community-Trust-PL-Kicks-Repo

**Crynodeb**

Gyda gwerth dros hanner miliwn o bunnoedd o fuddsoddiad yn cael ei wneud i gymunedau Dyfed-Powys yn 2020/21, mae'r buddsoddiad cadarnhaol yn parhau i'r flwyddyn ariannol hon. Mae buddsoddiad o dros chwarter miliwn o bunnoedd eisoes wedi'i gymeradwyo drwy'r broses sgorio ddiwyd, gan ganiatáu i'r Comisiynydd fuddsoddi'n effeithiol ac yn dryloyw ar hyd a lled Dyfed-Powys. Ar nodyn cadarnhaol pellach, mae'r Comisiynydd hefyd wedi llwyddo i ddod â buddsoddiad i gymunedau Dyfed-Powys gyda nifer o grantiau allanol wedi'u cymeradwyo, gyda buddsoddiad gan sefydliadau fel y Swyddfa Gartref a Salix. Isod ceir trosolwg byr o'r mewnfuddsoddiad a'r llwyddiannau y mae'r Comisiynydd wedi bod yn gyfrifol amdanynt –

- Strydoedd Diogelach y Swyddfa Gartref rownd 1, 2 a 3. Datblygu prosiectau sy'n mynd i'r afael â throseddau caffael mewn ardaloedd yr effeithir arnynt yn anghymesur ac i fuddsoddi yn niogelwch menywod a merched mewn ardaloedd penodol yr effeithir arnynt gan droseddau VAWG. Rhai o'r troseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) rhestredig yr ydym yn canolbwyntio arnynt yw Trais Rhywiol, Ymosodiad Rhywiol, Aflonyddu ar y Stryd, Stelcian ac Amlygiad Anweddus. Mae'r prosiectau'n cynnwys prynu offer caledu targed ar gyfer aelwydydd i atal lladrata a lladradau, mwy o welliannau amgylcheddol megis mwy o lanhau strydoedd, goleuadau stryd ychwanegol mewn ardaloedd a nodwyd gan aelodau'r gymuned a Swyddogion yr Heddlu fel mannau poeth posibl, marcio lladrata beiciau ac offer marcio eiddo. Yr ardaloedd a dargedwyd a oedd oll yn bodloni meincnod y Swyddfa Gartref ar gyfer troseddau anghymesur oedd Elli 2, Tyisha 2, Glanymor 4, Canol Aberystwyth, De Tref Caerfyrddin, Castell Hwlffordd a'r Priordy a Dwyrain y Drenewydd – £155k, £87k, £155k = **cyfanswm o £397k**
- Cronfa Prosiect Cyflawnwyr y Swyddfa Gartref. Datblygu prosiect i ddarparu gweithgareddau penodol sy'n targedu cyflawnwyr cam-drin domestig a thrais. Bydd y prosiect yn cynnwys datblygu ymyriad stelcian, Swyddog Peryglon pwrpasol, cymorth i deuluoedd a gwaith atal **– £417k**
- Cronfa Datgarboneiddio Salix. Datblygu prosiect i ddatgarboneiddio ystadau Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer y dyfodol gan arwain at gynaliadwyedd amgylcheddol - **£879k**

Nid yn unig y mae'r Comisiynydd wedi bod yn gyfrifol am fuddsoddi tua £850,000 yng nghymunedau Dyfed-Powys dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae hefyd wedi llwyddo i gael buddsoddiad grant i'r swm o tua £1.6 miliwn o ffynonellau allanol. Mae'r holl ffynonellau incwm allanol a dderbynnir yn cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Heddlu a Throseddu, gan helpu i leihau troseddu ac asb, a hefyd yn amddiffyn dioddefwyr ac yn helpu cymunedau i adeiladu eu gwydnwch eu hunain.

**Camau nesaf**

O ran symud ymlaen yn llwyddiannus gyda buddsoddiad yn y dyfodol, rydym yn cysylltu'n fwy effeithiol â Swyddog Partneriaeth newydd yr Heddlu ac Arweinydd Newid a Thrawsnewid, i fabwysiadu dull gweithredu dwy elfen o ran alinio blaenoriaethau Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu yn llwyddiannus, a sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth a'r gofynion ar gyfer cyllid grant yn cael eu nodi o fewn prosesau busnes. Bydd hyn yn ein galluogi i gael blaengynllun clir o angen fel y gallwn nodi llwybrau ariannu priodol.

Rydym yn deall natur tymor byr llawer o'r grantiau a dderbynnir ac mae angen iddynt sefydlu cynllun ar gyfer buddsoddi mwy cynaliadwy wrth symud ymlaen i sicrhau bod y gwaith da y mae'r prosiectau hyn yn ei gyflawni yn parhau ac yn cael ei gynnal. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Cyllid i sicrhau diwydrwydd dyladwy ariannol priodol y cyllidebau grantiau a chysylltu'n agos â chymheiriaid Cyllid yn yr Heddlu bob mis.

**ATODIAD A**

**Asesiad blaenoriaeth ar gyfer dyfarnu grantiau**

Bydd y Comisiynydd a Chynghorydd Cyllid Allanol yn sgorio'r ceisiadau a gyflwynwyd i ddechrau, gydag argymhellion terfynol yn cael eu goruchwylio gan ein Bwrdd Comisiynu, a fydd yn ystyried ansawdd a gwerth am arian y prosiect, wrth sgorio yn erbyn meini prawf penodol.

Bydd pob prosiect a gyflwynir yn cael ei werthuso a'i sgorio yn erbyn y meini prawf canlynol -

| DEWISIADAU ASESU I'W DEWIS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Meini Prawf Asesu Prosiectau** | **Lleiaf 1-2** | **Isel 3-5** | **Canolig 6-8** | **Uchel 9-10** | |
| 1 | Cyfrannu tuag at y Cynllun Heddlu a Throseddu / Cynllun Plismona / Strategaeth Ieuenctid – i ba raddau y mae'r prosiect yn cyflawni yn erbyn y cynllun a'r blaenoriaethau / canlyniadau perthnasol. | Nid yw cyfraniad y prosiectau tuag at y cynllun yn glir ac nid oes unrhyw dystiolaeth o gysylltiad â blaenoriaethau / canlyniadau. | Mae cyfraniad y prosiectau i'r cynllun yn glir ac mae rhywfaint o gysylltiad â'r blaenoriaethau / canlyniadau. | Mae cyfraniad y prosiectau i'r cynllun yn sylweddol ac mae tystiolaeth sylweddol o gysylltiadau â'r blaenoriaethau / canlyniadau. | Mae'r prosiect yn ffactor cyfrannol mawr i lwyddiant y cynllun ac mae tystiolaeth o gysylltiadau â'r rhan fwyaf / pob un o'r blaenoriaethau / canlyniadau. | |
| 2 | Ymgysylltu â Phartneriaethau a phrynu i mewn / cyfranogiad cynhwysfawr gan randdeiliaid allweddol – i ba raddau y mae gan | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y rhanddeiliaid allweddol wedi cymryd rhan nac yn cefnogi'r prosiect. | Mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig bod rhanddeiliaid allweddol wedi cymryd rhan ac yn cefnogi'r prosiect. | Mae tystiolaeth gadarn a digonol bod rhanddeiliaid allweddol wedi cymryd rhan ac yn cefnogi'r prosiect. | Mae tystiolaeth gref bod yr holl randdeiliaid allweddol wedi cymryd rhan ac yn cefnogi'r prosiect. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | y prosiect gyfranogiad cynhwysfawr gan randdeiliaid. | | | | | |
| 3 | Angen prosiect – yn ymateb i dystiolaeth o fwlch penodol yn y ddarpariaeth a / neu'n diwallu anghenion cymunedol cydnabyddedig | Nid yw'r prosiect wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth o angen prosiect na bwlch yn y ddarpariaeth. | Mae'r prosiect wedi cyflwyno tystiolaeth gyfyngedig o angen prosiect neu fwlch yn y ddarpariaeth. | Mae'r prosiect wedi cyflwyno tystiolaeth sylweddol o angen prosiectau a bwlch yn y ddarpariaeth. | Mae'r prosiect wedi cyflwyno tystiolaeth gref o angen prosiect ac wedi nodi bwlch yn y ddarpariaeth yn gynhwysfawr. | |
| 4 | Cyflawniad yn erbyn canlyniadau arfaethedig – graddau'r sicrwydd bod canlyniadau'r prosiect yn gyflawnadwy, yn fesuradwy ac yn gyraeddadwy. | Ni chyflwynir unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol bod y canlyniadau'n gyflawnadwy, yn fesuradwy ac yn gyraeddadwy. | Prin yw'r dystiolaeth a gyflwynir bod canlyniadau'n gyflawnadwy, yn fesuradwy ac yn gyraeddadwy. | Mae sail gadarn i'r canlyniadau arfaethedig ac ystyrir eu bod yn gyflawnadwy, yn fesuradwy ac yn gyraeddadwy. | Mae'r prosiect yn dangos yn glir ac yn argyhoeddiadol bod y canlyniadau'n gyflawnadwy, yn fesuradwy ac yn gyraeddadwy. | |
| 5 | Cynlluniau cyflawni prosiectau ar waith – i ba raddau y gellir dibynnu ar y cyraeddiadau, yr amserlenni a'r cerrig milltir. | Nid oes unrhyw gynlluniau prosiect clir wedi'u cynnig nac ar waith ac nid yw'r mecanwaith cyflawni wedi'i sefydlu. | Mae cynlluniau'r prosiect wedi'u sefydlu'n rhannol ond nodwyd materion cyflawni sylweddol. | Mae cynlluniau'r prosiect ar waith yn bennaf a chredir bod unrhyw faterion cyflawni a nodwyd yn hylaw. | Mae gan y prosiect gynlluniau cadarn ar waith ac mae rhesymau cadarn dros ddisgwyl y bydd y perfformiad cyflawni yn dda. | |
| 6 | Cymhwysedd sefydliadol a'r gallu i gyflawni – i ba raddau y mae'r lefel gywir o adnoddau sydd â'r sgiliau a'r gallu sefydliadol angenrheidiol ar waith. | Nid oes gan y sefydliad hanes profedig ac ni all ddarparu tystiolaeth argyhoeddiadol o allu i gyflawni. | Mae'r sefydliad wedi cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth o brofiad a gallu i gyflawni yn y maes hwn. | Mae gan y sefydliad hanes hysbys o gyflawni prosiectau yn y maes hwn ac mae wedi cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth o allu i gyflawni. | Mae gan y sefydliad hanes sefydledig o gyflawni prosiectau yn y maes hwn ac mae wedi dangos tystiolaeth o'i allu i gyflawni. | |
| 7 | Effeithiau canlyniadol – e.e. ar yr adran TG, | Mae'r cynnig yn debygol o arwain at gostau ac effaith ychwanegol | Mae'r cynnig yn debygol o arwain at gostau ac effaith ychwanegol ond | Mae'r cynnig yn debygol o arwain at gostau ac effaith ychwanegol | Mae'r cynnig yn annibynnol ac ni fydd yn arwain at unrhyw gostau neu | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | costau refeniw, gofynion cymorth. | sylweddol nad ydynt wedi'u nodi na mynd i'r afael â hwy | mae'r cynnig wedi ceisio nodi a mynd i'r afael â'r rhain i ryw raddau | fach iawn NEU nododd y cynnig unrhyw gost ac effaith ychwanegolac aeth afael â hwy. | effaith ychwanegol | |
| 8 | Ystyriaeth strategaeth ymadael – i ba raddau y mae strategaeth ymadael glir a chynaliadwy ar waith a dim risg o ddibyniaeth ar grantiau. | Mae'r cynnig a'r canlyniadau ar gyfer y prosiect hwn yn dangos risg sylweddol o ddibyniaeth. | Mae'r strategaeth ymadael ar gyfer y prosiect hwn yn aneglur ac mae perygl posibl o ddibyniaeth. | Mae strategaeth ymadael glir ac mae dibyniaeth sefydliadol yn annhebygol. | Mae strategaeth ymadael gadarn ac argyhoeddiadol heb unrhyw risg o ddibyniaeth. | |
| 9 | Cadarnhad nad yw'r prosiect yn cael ei ariannu ddwywaith drwy ffynonellau eraill, gan gynnwys yn fewnol o fewn yr Heddlu | Risg y gallai'r prosiect hwnnw fod yn derbyn arian dyblyg o ffynonellau eraill | Amherthnasol | Amherthnasol | Nid yw'r cyllid a dderbynnir o ffynonellau eraill yn dyblygu'r defnydd arfaethedig o gyllid y Comisiynydd | |
| 10 | Cadarnhad nad yw'r prosiect yn gwrthdaro â gwasanaethau neu brosiectau presennol a gomisiynir | Risg y gallai'r prosiect fod yn gwrthdaro â'r ddarpariaeth bresennol drwy wasanaethau neu brosiectau a gomisiynir gan y Comisiynydd | Amherthnasol | Amherthnasol | Cymharwyd canlyniad y prosiect â gweithgareddau presennol a ariennir gan y Comisiynydd ac ni fydd yn arwain at unrhyw wrthdaro buddiannau na chanlyniad | |
| 11 | Ystyried goblygiadau'r Gymraeg | Bydd y prosiect yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Gellid gosod amodau grant i sicrhau llai o effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a byddant yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Gellid gosod amodau grant i sicrhau effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a byddant yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | |

**Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
**05/11/2021**

| PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br><br>**1. Craffu ar berfformiad y Comisiynydd**<br>**2. Gwneud argymhellion i'r Comisiynydd fel y gwêl y Panel yn briodol** |
| Y Rhesymau:<br><br>Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn nodi sut y bydd swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cael eu harfer mewn perthynas â'i gilydd |

| Awdur yr Adroddiad: | Swyddi: | Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| R J Edgecombe | Swyddog Arweiniol i'r Panel | rjedgeco@sirgar.gov.uk |

# DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 05/11/2021

## POLICING PROTOCOL – PERFORMANCE REPORT

Section 79 of the Police Reform and Social responsibility Act 2011 requires the Secretary of State to issue a Policing Protocol , the purpose of which is to set out how the functions of Police and Crime Commissioner and Chief constable are to be exercised in relation to each other.
Paragraph 17 of the Protocol sets out the legal powers and duties of the Commissioner, namely.

(a) set the strategic direction and objectives of the force through the Police and Crime Plan (—the Plan), which must have regard to the Strategic Policing Requirement set by the Home Secretary;
(b) scrutinise, support and challenge the overall performance of the force including against the priorities agreed within the Plan;
(c) hold the Chief Constable to account for the performance of the force‘s officers and staff;
(d) decide the budget, allocating assets and funds to the Chief Constable; and set the precept for the force area;
(e) appoint the Chief Constable (except in London where the appointment is made by the Queen on the recommendation of the Home Secretary);
(f) remove the Chief Constable subject to following the process set out in Part 2 of Schedule 8 to the 2011 Act and regulations made under section 50 of the Police Act 1996(a);
(g) maintain an efficient and effective police force for the police area;
(h) enter into collaboration agreements with other PCCs, other policing bodies and partners that improve the efficiency or effectiveness of policing for one or more policing bodies or police forces in consultation with the Chief Constable (where this relates to the functions of the police force, then it must be with the agreement of the Chief Constable);
(i) provide the local link between the police and communities, working to translate the legitimate desires and aspirations of the public into action;
(j) hold the Chief Constable to account for the exercise of the functions of the office of Chief Constable and the functions of the persons under the direction and control of the Chief Constable;
(k) publish information specified by the Secretary of State and information that the PCC considers necessary to enable the people who live in the force area to assess the performance of the PCC and Chief Constable;
(l) comply with all reasonable formal requests from the Panel to attend their meetings;
(m) prepare and issue an annual report to the Panel on the PCC‘s delivery against the objectives set within the Plan;
(n) monitor all complaints made against officers and staff, whilst having responsibility for complaints against the Chief Constable.

The attached report sets out the Commissioner’s performance against these powers and duties

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **YES** |

# IMPLICATIONS

| n that other than those implications which have been referred to in detail below, there are no other ions associated with this report:<br>**Signed:** *R J Edgecombe (Lead Officer to the Panel)* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**<br>**List of Background Papers used in the preparation of this report:**<br><br>**THESE ARE DETAILED BELOW** | | |
|---|---|---|
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| **Host Authority File** | **PACP040** | **County Hall Carmarthen** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# Gorchymyn Protocol Plismona 2011

## Adroddiad Perfformiad Cryno Chwarter 2 2021/22

**Cyflwyniad**

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) o fewn pob ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt am blismona yn ei gyfanrwydd yn eu hardal. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddal y Prif Gwnstabl (PG) i gyfrif am blismona gweithredol, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r berthynas o bedwar tu, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, Panel yr Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob parti yn cadw at y 7 egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae’r angen i’r partïon hyn sefydlu a chynnal perthynas waith effeithiol yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd yr holl bartïon yn gwneud eu gorau glas i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys archwiliad sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer cyfreithiol a dyletswydd drostynt. Mae hyn yn cyfateb i 21 o feysydd sydd wedi'u rhannu ymhellach yn 54 maes gweithredu gan wahanol feysydd busnes o fewn SCHTh, mae 4 o'r rhain wedi'u marcio'n barhaol fel rhai amherthnasol, sy'n gadael 50 o feysydd gweithredu. Caiff y rhain eu cwblhau bob chwarter i ddangos cynnydd parhaus.

Rhoddir sgôr CAG i bob adran i dynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder

Gwyrdd - Cydymffurfio'n llawn, nid oes angen unrhyw waith ychwanegol

Ambr - Cydymffurfio'n rhannol, rhywfaint o waith ychwanegol yn angenrheidiol

Coch - Ddim yn cydymffurfio, dyletswydd ddim yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae'r crynodeb o'r archwiliad ar gael i’r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter blaenorol.

**Crynodeb Gweithredol**

Mae'r adroddiad canlynol yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch2 y flwyddyn ariannol 2021/22 (Gorffennaf/Awst/Medi 2021)

Cymhariaeth statws CAG

**Crynodeb:**

O'r 50 maes gweithredu:

| | | |
|---|---|---|
| Coch | 1 | 4% |
| Ambr | 21 | 44% |
| Gwyrdd | 28 | 52% |

Nid yw nifer y meysydd sy'n cael eu sgorio fel Coch/Ambr/Gwyrdd wedi newid yn sylweddol ers y chwarter diwethaf, gyda'r rhai a sgoriodd fel coch wedi gostwng 1, y rhai a sgoriodd fel ambr wedi gostwng 1, a chynnydd mewn gwyrdd o 2.

Mae hyn yn deillio o'r ffaith bod pob Arweinydd Maes Busnes yn cydnabod bod gwaith y swyddfa a'r Comisiynydd yn datblygu o hyd ac nid yw'n realistig marcio bod meysydd yn cydymffurfio'n llwyr pan mae gwaith sylweddol yn digwydd o hyd er mwyn sicrhau bod holl feysydd y protocol yn

Mae'r rhan fwyaf o feysydd yn cydymffurfio'n rhannol o leiaf â rhai o'r categorïau sy'n sefyll allan fel rhai sydd angen mwy o sylw oherwydd canran y coch/ambr o fewn y categori:

17a - Pennu cyfeiriad ac amcanion strategol yr Heddlu drwy Gynllun yr Heddlu a Throseddu y mae'n rhaid iddo roi sylw i'r Gofyniad Plismona Strategol – (3/3) 100% ambr. Mae hyn wedi'i ystyried yn Ambr ar hyn o bryd gan fod drafft o'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn cael ei drafod gan y Prif Gwnstabl newydd, Tîm y Prif Swyddogion ac Uwch Swyddogion. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod y Cynllun presennol dal mewn grym ac yn darparu'r cyfeiriad strategol gofynnol.

17i - Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i drosi dyheadau dilys y cyhoedd yn gamau gweithredu - (4/5) 80% ambr

17n - Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, gan fod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y PG hefyd – (1/2) 50% coch. Mae'r un adran hon wedi'i marcio'n goch oherwydd na ymatebwyd i bob adolygiad o fewn yr amserlen 28 diwrnod, ond mae hyn oherwydd amgylchiadau eithriadol a'r cynnydd yn nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd. Mae cynlluniau ar waith i unioni'r sefyllfa hon.

**17a) Pennu cyfeiriad ac amcanion strategol yr Heddlu drwy Gynllun yr Heddlu a Throseddu y mae'n rhaid iddo roi sylw i'r Gofyniad Plismona Strategol**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7) | | Mae drafft o'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn cael ei drafod gan y Prif Gwnstabl newydd, Tîm y Prif Swyddogion ac Uwch Swyddogion. Y dyddiad cau ar gyfer adborth fydd 20 Hydref, ac ar ôl hynny bydd diwygiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'u cyflwyno i'r Panel Heddlu a Throseddu i ymgynghori arnynt. Bydd y fersiwn hon hefyd yn cael ei hanfon at bartneriaid a'i chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. |
| Datblygu Cynllun Cyflawni Heddlu a Throseddu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion fel y'u nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu | | Mae trafodaethau wedi dechrau mewn perthynas â'r cynllun cyflawni a'r fframwaith perfformiad i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun. |
| Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. | | Mae drafft o'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn cael ei drafod gan y Prif Gwnstabl newydd, Tîm y Prif Swyddogion ac Uwch Swyddogion. Y dyddiad cau ar gyfer adborth fydd 20 Hydref, ac ar ôl hynny bydd diwygiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'u cyflwyno i'r Panel Heddlu a Throseddu i ymgynghori arnynt. Bydd y fersiwn hon hefyd yn cael ei hanfon at bartneriaid a'i chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. |

**17b) Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i gefnogi gwaith craffu effeithiol | | Mae trefniadau llywodraethu clir ar waith gyda llwybrau uwchgyfeirio ar gael i gefnogi'r Comisiynydd wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. |
| Datblygu ac adolygu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn flynyddol | | Mae'r adolygiad blynyddol wedi'i drefnu ar gyfer C4, ond gellir gwneud unrhyw newidiadau a nodwyd drwy gydol y flwyddyn, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Archwilio. |
| Sefydlu amserlen weithgarwch sy'n seiliedig ar risg ac sy'n edrych tua'r dyfodol i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu. | | Bu ychydig o oedi wrth gyhoeddi adroddiadau drafft oherwydd llwyth gwaith yn yr adran Sicrwydd, ond mae mesurau lliniaru wedi bod ar waith i rannu adborth cychwynnol gyda'r Heddlu yn gynharach. Mae hyn wedi cefnogi ymgysylltiad da gan yr Heddlu ac wedi arwain at dderbyn a gweithredu llawer o'r arsylwadau yn ôl yr angen. |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei chynrychioli yng ngwaith craffu CHTh | | Oherwydd y ffocws ar ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, barnwyd nad oedd yn addas ceisio barn bellach ar bynciau craffu yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Treuliodd y Cynghorydd Polisi a Sicrwydd lawer o amser yn adolygu'r cynnydd tuag at lansio'r fenter o'r Dechrau i'r Diwedd, yn ogystal â drafftio'r Cynllun newydd.<br><br>Mae paneli craffu Gwaredu y Tu Allan i'r Llys a Sicrhau Ansawdd yn parhau ar raglen reolaidd o weithgareddau. |
| Goruchwylio a gweithredu argymhellion arolygiaethau allanol | | Rhaid ymateb i ymatebion arolygu o fewn 56 diwrnod. Ymatebwyd i bob un o'r 9 adroddiad yn y chwarter hwn gyda dim ond un yn cael ei gyflwyno deuddydd yn hwyr oherwydd oedi cyn cael cymeradwyaeth a llofnod gan y Comisiynydd.<br>Dyma'r adroddiadau a ymatebwyd iddynt y chwarter hwn:<br><br>1. Achos o Bryder wedi'i gyflymu yn ymwneud ag Uniondeb Data Troseddu<br>2. Uwch-gŵyn ynghylch Caethwasiaeth Fodern<br>3. Plismona cam-drin domestig yn ystod y pandemig<br>4. Adroddiad interim Ymgysylltiad yr heddlu â menywod a merched<br>5. Ymateb yr heddlu a'r Gwasanaeth Erlyn y Goron i dreisio<br>6. Niwroamrywioldeb yn y system cyfiawnder troseddol<br>7. Cyflwr Plismona 2020 – (deuddydd yn hwyr yn cyflwyno)<br>8. Rhannu hyder: deallusrwydd sensitif<br>9. Adolygiad o dwyll: amser i ddewis |

**17c) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Datblygu fframwaith perfformiad a strwythur sy'n caniatáu gwell dealltwriaeth o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu | | Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae SCHTh yn cwblhau ac yn cynnal gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer cyfreithiol a dyletswydd drostynt.<br>Mae'r gwiriad iechyd yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes fyfyrio ar gofnodion blaenorol a newid arferion adrodd yn ôl y gofyn. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff | | Mae trefniadau llywodraethu clir mewn grym, gan gynnwys y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. |
| Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl | | Caiff blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl eu hamlinellu'n glir yn nghynnig ffurfiol ei benodi, a fydd yn ffurfio'r amcanion ar gyfer Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl newydd mewn perthynas â'r amcanion hyn. |

**17d) Penderfynu ar y gyllideb, gan ddyrannu asedau a chronfeydd i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Llywio penderfyniad y CHTh mewn perthynas â'r praesept | | Parhaodd gwaith adolygu manwl yn ystod 2020/21 gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r CHTh i lywio ei fyfyrdodau mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys nifer o drafodaethau gyda Phrif Swyddogion a seminar a fynychwyd gan y CHTh, aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu ac aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio lle mynegodd y PG a'r CC sefyllfa bresennol yr Heddlu a'r heriau a ragwelwyd ar gyfer y blynyddoedd i ddod sydd bellach wedi arwain at ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 21/22-25/26, y Strategaeth Gyfalaf, Cronfeydd Wrth Gefn a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Cefnogwyd cynnig CHTh ar gyfer praesept 2021/22 gan y Panel Heddlu a Throseddu.<br><br>Mae gwaith wedi dechrau i lywio penderfyniad praesept 2022/23 gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cyflwyno rhaglen gyfalaf ragarweiniol a'r gyllideb refeniw ddrafft gyntaf ar gyfer 2022/23 yn ystod mis Medi. Rhagwelir y bydd cynnig y gyllideb yn cael ei gwblhau yn ystod mis Rhagfyr. |
| Pennu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig | | Mae gwaith wedi dechrau i bennu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022/23, a fydd yn cynnwys ymgynghori â'r Panel Heddlu a Throseddu ymhell cyn iddynt ystyried cynnig praesept y Comisiynydd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefyd yn cael ei ystyried gan y Cydbwyllgor Archwilio ar y cyd â'r Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn, y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys |
| Ariannu rhaglen gyfalaf i ddarparu asedau priodol i'r Heddlu i gyflwyno gwasanaethau plismona effeithiol | | Mae gwaith manwl wedi parhau i ddatblygu ymhellach y rhaglen gyfalaf tymor hwy (10 mlynedd) sy'n rhan o'r CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Ystyriwyd y CATC gan y Panel Heddlu a Throseddu ac fe'i cefnogwyd gan aelodau. Mae'r CATC hefyd yn cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio ar y |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyd â'r Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn, y Strategaeth Gyfalaf a’r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. |

### 17e) Penodi'r Prif Gwnstabl

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Penodi Prif Gwnstabl | | Cefnogwyd yr ymgeisydd a ffafrwyd gan y Comisiynydd, gan y Panel Heddlu a Throseddu ar 30 Gorffennaf 2021. Ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cleveland mewn perthynas â dyddiad cychwyn y Prif Gwnstabl newydd. |

### 17f) Diswyddo’r Prif Gwnstabl

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Dilyn y broses a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 o Ddeddf yr Heddlu 1996(a) | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 17g) Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal yr heddlu

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Sicrhau bod Gwerth am Arian yn cael ei gyflawni | | Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u hymgorffori drwy'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwilio Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio gan y CHTh a’r PG mewn modd sy’n sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.<br><br>Hefyd, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad Gwerth am Arian penodol ar drefniadau cydweithredol sydd wedi gwneud nifer o argymhellion.<br><br>Mae'r Grŵp Cyllid, Effeithlonrwydd a’r Dyfodol yn goruchwylio trefniadau gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ac mae'r Prif Swyddog Cyllid (PSC) yn cymryd rhan yn nifer o gyfarfodydd llywodraethu’r Heddlu sy'n ystyried agweddau ar Werth am Arian fel mater o drefn.<br><br>Ystyrir y Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion fel rhan o'r CATC a sefydlwyd ffocws ar gynigion prosiect a gwireddu |

| | | |
|---|---|---|
| | | manteision busnes a fydd yn ceisio helpu i sbarduno gwerth am arian yn barhaus.<br><br>Mae Gwerth am Arian yn rhan annatod o weithgarwch caffael ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol a bydd parhau i ymgysylltu Blue Light Commercial yn helpu i yrru ymhellach Werth am Arian. |
| Cydymffurfiaeth statudol ystadau gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben at ddefnydd gweithredol | | Mae Cydymffurfiaeth Statudol wedi codi'n raddol dros y 12 mis diwethaf ar gyfer yr Heddlu, ac yn benodol ar gyfer y mis diwethaf; roedd hyn yn 97%.<br><br>Rydym yn cefnogi hyn drwy roi sylw i fesurau cywirol. Rydym yn gweithredu cynllun gwella archwiliadwy i wirio a phrofi'r holl ddata yn y maes hwn. |
| Archwilio cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol | | Mae Mannau Gwefru Cerbydau Trydan yn awr yn fyw ym Mhencadlys yr Heddlu ac ystyrir cwmpas ar gyfer safleoedd eraill.<br><br>Mae'r Heddlu wedi sicrhau £880,000 o gyllid SALIX.<br><br>Mae cam 1 y prosiect datgarboneiddio ar y gweill. Mae elfennau allweddol ym Mhencadlys yr Heddlu'n cynnwys:<br>Goleuadau deuodau allyrru golau<br>Arae ffotofoltaidd<br>Ynysiad llofft<br>Diweddariadau i System Rheoli Ynni Adeiladau<br>Diweddariad i Reoliadau Dŵr poeth a Gwres<br>Is-fetru<br>Disodli falfiau rheiddiadur deallus ledled yr heddlu<br><br>Mae strategaeth Cynaliadwyedd yn cael ei datblygu fel prosiect Heddlu Cymru Gyfan a phenodwyd Rheolwr Cynaliadwyedd. Mae datgarboneiddio ar lefel genedlaethol yn cael ei gwmpasu gan Blue Light Commercial.<br><br>Mae Cynllun Bioamrywiaeth yn cael ei ddatblygu gyda Grŵp Ynni a Grŵp Bioamrywiaeth yn gyrru gofynion gweithredol ac yn bwydo i mewn i'r Grŵp Cynaliadwyedd |
| Archwilio a chynyddu cyfleoedd ariannu allanol | | Parhawn i weithio gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddatblygu prosiectau o dan y buddsoddiad cychwynnol. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid Trais yn Erbyn Menywod a Merched ar y cyfleoedd Cronfa Troseddwyr a Strydoedd Mwy Diogel 3.<br><br>Rydym wedi llwyddo i gael cyllid o dan y Gronfa Droseddwyr o'r Swyddfa Gartref, i ddatblygu mentrau sy'n benodol i gyflawnwyr gyda Phartneriaid Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG). |
| Archwilio a chynyddu cyfleoedd o ran mentrau noddi | | Mae cyfleoedd noddi yn parhau i gael eu ceisio ar draws ardal yr Heddlu, ond mae hyn wedi arafu oherwydd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | sefyllfa bresennol o ran COVID. Wrth symud ymlaen, bydd hwn yn faes blaenoriaeth i'r Ymgynghorydd Ariannu Allanol.<br><br>Byddwn yn gweithio'n agos gyda swyddog Partneriaeth newydd yr Heddlu i fanteisio ar fentrau wrth symud ymlaen. |
| Gweithredu a chynnal cofrestr risg i nodi a lliniaru risgiau i SCHTh a'r Heddlu | | Adroddir ar y cofrestri i'r tîm Gweithredol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwybod am bob diweddariad a maes pryder. Mae adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno bob chwarter i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.<br><br>Mae'r Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn cael cyfarfodydd misol gydag Ymgynghorydd Rheoli Parhad Busnes a Risg yr Heddlu. Mae'r holl risgiau a rannwyd yn cael eu trafod a'u cyfathrebu yn y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau cysondeb â chofnodion.<br><br>Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u trefnu i barhau â'r Swyddog Risg a Sicrwydd sydd newydd ei benodi yn dilyn ymddeoliad Cynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes yr yr Heddlu ym mis Medi. |
| Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh | | Trafodir hyfforddiant mewn adolygiadau Proffil Datblygu ac Asesu a'i gynllunio gan hynny yn unol â'r gyllideb a bennwyd. |

**17h) Ymrwymo i gytundebau cydweithredu â Chomisiynwyr eraill, cyrff plismona eraill a phartneriaid eraill**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth Blismona i Gymru | | Mae'r Comisiynydd bellach yn gadeirydd Plismona yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar gydweithio yn ystod ei dymor. Bydd seminar i ganolbwyntio ar y maes hwn yn cael ei drefnu ar gyfer mis Rhagfyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd cyd-gomisiynu. Mae arweinydd Prif Swyddog Cymru Gyfan yn swyddog o Ddyfed-Powys, sy'n cysylltu'n agos â'r Comisiynydd |
| Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill | | Rydym yng nghamau olaf gweithredu prosiect y gronfa Strydoedd Mwy Diogel ac wedi bod yn llwyddiannus o ran yr ail gais ar gyfer ail rownd y gronfa. Yn ddiweddar, dyfarnwyd cais gwerth £880,000 inni am gyllid Salix, sy'n edrych ar wella cynaliadwyedd amgylcheddol ein hystadau. Rydym hefyd wedi llwyddo i dderbyn £417,000 o'r Gronfa Troseddwyr gan weithio gyda'n partneriaid Trais yn Erbyn Menywod a Merched i gyflwyno'r prosiect. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i graffu ar gytundebau cydweithio | | Mae'r Comisiynydd bellach yn gadeirydd Plismona yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar gydweithio yn ystod ei dymor. Craffir ar gydweithio hefyd o safbwynt Dyfed-Powys drwy'r Bwrdd Plismona |

### 17i) Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i drosi dyheadau dilys y cyhoedd yn gamau gweithredu

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Gweithio gyda'r Heddlu i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd; cyflawni'r amcanion ynddo. | | Aeth y Cynghorydd Polisi ac Ymgysylltu i Fwrdd Cofleidio Amrywiaeth yr Heddlu (cyfarfod chwarterol) lle caiff cynnydd yn erbyn Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei fonitro. |
| Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu a chynllun gweithredu, a Pholisi a Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol, gan gynnwys rhoi cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwaith CHTh a'r PG yn rhagweithiol. | | • Mae ein Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol wedi'i datblygu a'i rhannu gyda'r Pennaeth Staff ac wedi'i pharatoi i'w chyflwyno i'r Tîm Gweithredol yn ystod Ch3.<br>• Mae ein Polisi Cyfryngau Cymdeithasol wedi'i ddosbarthu i holl staff Swyddfa'r Comisiynydd.<br>• Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr a Chylch Gorchwyl y Fforwm Ymgysylltu â Phobl Ifanc wedi'u cyhoeddi ar y wefan.<br>• Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu wedi'i ddatblygu ar gyfer mis Medi hyd at fis Ionawr.<br>• Cyhoeddwyd 14 o ddatganiadau i'r wasg, ar lansio'r Siarter Hawliau Plant, ymestyn Cynllun Kicks Uwch Gynghrair Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Comisiynydd, Cynllun Grantiau Bach Strydoedd Diogelach, penodiad y Prif Gwnstabl newydd, Cynllun Taclo Troseddau Llywodraeth y DU, y Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol, cyhoeddi fideo'r Fforwm Ymgysylltu â Phobl Ifanc, a recriwtio i'r Cydbwyllgor Archwilio.<br>• Gwnaethom barhau i roi gwybod i'r cyhoedd am waith y Comisiynydd drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.<br>• Gweithredwyd ein dull newydd o weithredu o ran cylchlythyr misol y Comisiynydd drwy gyhoeddi dau e-Fwletin newydd a anfonwyd yn electronig at gynrychiolwyr cymunedol allweddol a'r rhai a oedd wedi ymuno â Chylchlythyr y Comisiynydd o'r blaen.<br>• Aeth y gwaith ymlaen i gynnwys dioddefwyr wrth lunio a chraffu ar wasanaethau dioddefwyr drwy ymgysylltu drwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, |

ar broses newydd arfaethedig Heddlu Dyfed-Powys wrth ddelio â galwadau nad ydynt yn rhai brys (dechrau i'r diwedd) a Datganiadau Personol Dioddefwyr.

- Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Fforwm Ieuenctid a staff o dîm Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys i lansio fideo'r Fforwm Ymgysylltu â Phobl Ifanc a oedd yn rhannu profiadau pobl ifanc o gyswllt â'r heddlu.
- Cynhaliwyd Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned Diogelwch ar y Ffyrdd sir Gaerfyrddin gan y Comisiynydd ym mis Medi, lle croesawodd gerbyd Prosiect EDWARD i ardal yr heddlu, ac ymgysylltodd â thrigolion Dafen, Llanelli - un o 8 ardal yng Nghymru sy'n treialu cynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfynau cyflymder 20mya mewn ardaloedd preswyl. Cyfarfu'r Comisiynydd â gwirfoddolwyr Gwylio Cyflymder Cymunedol a staff Gan Bwyll. Cymerodd ran hefyd yng ngweithdy Megadrive Cyngor Sir Gaerfyrddin yn Ysgol y Strade, i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd ymhlith gyrwyr newydd, cyn ymweld ag Uned Plismona Ffyrdd Dyfed-Powys yn Cross Hands.
- Cyfarfu'r Comisiynydd â swyddogion troseddau gwledig a chynrychiolwyr lleol yng Nghilgerran i drafod dull ar y cyd o fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Aberteifi.

Ymateb i bryderon y gymuned mewn modd amserol

Nid oes yr un o'r ystadegau ar gyfer y cyfathrebiad a dderbyniodd Swyddfa'r Comisiynydd wedi achosi unrhyw bryderon mewn perthynas â chynnydd sydyn mewn ffigurau ac ati. Mewn perthynas â'r gwrandawiad camymddygiad a gofnodwyd, mae'r cofnod hwn yn ymwneud ag ymholiad ynghylch recriwtio Aelodau Annibynnol i'r Panel; yn hytrach na Gwrandawiad Camymddygiad.

| | |
|---|---|
| Nifer y pryderon cymunedol a godwyd | 89 |
| Nifer yr achosion sydd ar agor neu'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd | 11 |
| % yr achosion sydd wedi'u cau a ddatryswyd o fewn 30 diwrnod gwaith | 100.00% |

| | | |
|---|---|---|
| Crynodeb yn ôl categori - Pryderon PERSONOL | % Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 15.74% |
| | % Anghydfod rhwng cymdogion | 3.37% |
| | % Troseddau casineb | 1.12% |
| | % Llygredd Sŵn | 1.12% |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td rowspan="2"></td><td>% Pryderon traffig/ Goryrru/ Cosbau penodedig</td><td>22.47%</td></tr>
<tr><td>% Dirymu Trwydded Arfau Saethu</td><td>2.25%</td></tr>
</table>
<table>
<tr><td rowspan="4">Crynodeb yn ôl categori - Pryderon Sefydliadol</td><td>% Materion ASP parhaus / ymddygiad staff / swyddogion heddlu</td><td>44.95%</td></tr>
<tr><td>% TCC</td><td>1.12%</td></tr>
<tr><td>% Gwrandawiad Camymddygiad</td><td>1.12%</td></tr>
<tr><td>% Rheoli Data</td><td>1.12%</td></tr>
</table>
<table>
<tr><td rowspan="2">Crynodeb yn ôl Categori - Pryderon ERAILL</td><td>% Pryderon Lleol / Cenedlaethol</td><td>3.37%</td></tr>
<tr><td>% Cwyn Dyblyg</td><td>2.25%</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynnwys preswylwyr yn y broses o gyfrannu at weithgarwch sicrwydd a chraffu</td>
<td></td>
<td>
Er bod y sefydliad gwirfoddol yn edrych yn gymharol iach ar 80% o'r gweithlu sy'n weithredol ar hyn o bryd, mewn gwirionedd mae gwaith i'w wneud i recriwtio i gynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa (ICV) a'r Panel Sicrhau Ansawdd (QAP), sydd ar hyn o bryd yn gweithredu ar 76% a 57% o gapasiti yn y drefn honno.
I'r gwrthwyneb, mae'r Cynllun Lles Anifeiliaid (AWS) yn parhau i gael ei ordanysgrifio, ond mae'n ei chael hi'n anodd cyrraedd ei darged ymweld.
Bydd y Swyddog Cymorth Sicrwydd yn gweithio ar wella prydlondeb cyflwyniadau adroddiad AWS a sicrhau bod pob ymweliad yn cael ei gwblhau.
Mae lleoliad myfyrwyr 6 wythnos yn gweithio ochr yn ochr â'r Swyddog Cymorth Sicrwydd ar ymgyrch recriwtio gyda'r nod o ddenu mwy o ymgeiswyr amrywiol i gynlluniau gwirfoddolwyr y Comisiynydd. Mae’r Panel Sicrhau Ansawdd (QAP) yn arbennig yn gofyn am gynnydd yn y nifer o Aelodau, a bu'n rhaid canslo cyfarfod Panel mis Medi oherwydd na allai gyflawni cworwm. Er nad oedd yn ddelfrydol, roedd y gweithgarwch craffu yn dal i fynd rhagddo, gydag Aelodau'n cyflwyno eu barn o bell i Swyddfa’r Comisiynydd i'w coladu mewn adroddiad.
Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i weithredu cynllun peilot craffu gwrth-rwygo sy'n arwain yn genedlaethol yn swyddfa Heddlu a Chomisiynydd Dyfed-Powys. Er bod adolygiadau cofnodion y ddalfa yn parhau i gael eu cynnal gan y Swyddog Cymorth Sicrwydd, mae ymdrech ar y cyd
</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | yn parhau er mwyn trosglwyddo'r cofnodion sy'n adolygu'n ôl i'r ICVs er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach.<br><br>Er gwaethaf yr anawsterau recriwtio, mae'r holl gynlluniau'n parhau i wneud cyfraniad sylweddol i weithgarwch craffu'r Comisiynydd, gyda'r ICVs mewn gwirionedd yn cynyddu eu 'cyrhaeddiad' dros y ddau chwarter diwethaf, gyda 5% (n=80) o'r holl geiswyr lloches yn cael eu hymweld, eu harsylwi neu eu hadolygu - mae hyn wedi gwella o 4% ar gyfartaledd o'r blaen. |
| Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch ar gyfer dioddefwyr a phobl sy'n agored i niwed | | Nid yw ffurflen ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder angen ei dychwelyd tan fis Tachwedd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Hydref. Mae darparwyr yn adrodd am ddata canlyniadau cadarnhaol ar hyn o bryd.<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae'r broses gwyno yn rhan o'r cylch archwilio blynyddol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.<br><br>Mae cwestiynau craidd ynghylch sut y bydd gwasanaethau'n hygyrch, o nifer o safbwyntiau gan gynnwys daearyddol, ffisegol, iaith, amrywiaeth, cydraddoldeb a gallu wedi'u cynnwys yn y templed caffael ac maent yn rhan o'r cyflwyniad a sgoriwyd.<br><br>Dychwelwyd hunanasesiad o'r gallu i gasglu ac adrodd ar ddata gan asiantaeth yn erbyn yr Hawliau Dioddefwyr newydd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Awst. Rydym yn aros am ymateb gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r templed cipio data. Mae trafodaethau Cod Ymarfer Dioddefwyr (CYD) yn parhau yng nghyfarfodydd dioddefwyr a thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLl) ond mae llawer o asiantaethau wedi gorfod atal casglu data â llaw yn ystod y pandemig. Dechreuodd proses samplu dip yng Ngwent a De Cymru; rydym yn aros am y ddysg o hyn i'w chyflwyno yn Nyfed-Powys a Gogledd Cymru. |

**17j) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rhai sydd o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Fel y nodir yn 17c | Amherthnasol | Amherthnasol |

**17k) Cyhoeddi gwybodaeth a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae CHTh yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i alluogi'r bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i asesu perfformiad CHTh a'r PG.**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig | | Daeth Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021 i rym ar 31 Mai. Mae'r gorchymyn hwn yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i bob Comisiynydd ei chyhoeddi. Bwriedir i'r wybodaeth ychwanegol wella tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus Comisiynwyr ymhellach.<br><br>Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cydymffurfio'n llawn â'r gorchymyn presennol, fel y gwelir yn y 3 blynedd diwethaf, yn ôl y dystiolaeth o dderbyn Marc Ansawdd Tryloywder CCHTh (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu - arbenigwyr Llywodraethu'r Heddlu).<br><br>Mae'r gorchymyn diwygiedig bellach yn nodi bod yn rhaid cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol hefyd:<br>• Datganiad ar y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer plismona - rhaid cyhoeddi hyn ar yr un pryd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Edrychir ymhellach ar hyn pan fydd y Cynllun Heddlu a Throseddu yn barod i'w gyhoeddi<br>• Dolen ar y wefan i adroddiad perfformiad diweddaraf PEEL. Gweithredwyd hyn.<br>• O ran ymdrin â chwynion, bydd data’r IOPC ac adroddiad naratif y Comisiynydd yn cael eu cyhoeddi o fewn mis i'w cyhoeddi gan yr IOPC. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a chaiff ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol.<br><br>Disgwylir i adolygiad llawn o'r wefan gael ei gynnal yn y chwarter nesaf yn barod ar gyfer cyflwyno cais ar gyfer gwiriadau tryloywder y flwyddyn nesaf.<br><br>Mae manylion llawn y Gofynion Cyhoeddi Statudol ar gael ar ein gwefan. |
| Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gyrraedd | | Mae’r Marc Ansawdd Tryloywder yn dangos ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a rhwyddineb hygyrchedd i bawb. |
| Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg | | Caiff yr holl wybodaeth gyhoeddedig ei chyfieithu fel mater o drefn cyn cyhoeddi unrhyw beth, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg bob amser yn cael eu trin yr un fath. |
| Mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o Wasanaethau a Gomisiynir | | Mae Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth gywir am wasanaethau sy'n bodoli eisoes. Caiff hyn ei wirio fel rhan o'r Dyfarniad Tryloywder a'i ddiweddaru'n rheolaidd gan y tîm Comisiynu lle mae angen diwygiadau. Mae dolen i'r wefan wedi'i chynnwys mewn Pecynnau Gwybodaeth i Ddioddefwyr. Mae dogfennau crynhoi tudalen sengl wedi'u cynnwys ar wefan |

| | | |
|---|---|---|
| | | y gwasanaethau a gomisiynwyd ac fe'u diweddarwyd yn ddiweddar i adlewyrchu data 2020/21.<br><br>Mynychodd tîm Ymgysylltu'r Comisiynydd bob cyfarfod adolygu contractau C1 gyda gwasanaethau a gomisiynwyd i gynllunio gwaith ar y cyd ar y cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau i'r wasg. Cynhaliwyd gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd, gan gynnwys gwaith ar y cyd a gynlluniwyd ar hyn o bryd gyda Llamau i ddarparu astudiaethau achos o arfer gorau. Mae'r Cyfarwyddwr Cynghorydd Comisiynu ac Ymgysylltu yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion perthnasol.<br><br>Roedd erthygl yn ASB in Focus yn ystod Ch2 yn cynnwys proses apelio Sbardun Cymunedol y Comisiynydd a chefnogaeth i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy Goleudy.<br><br>Mae pob contract yn cynnwys gofyniad safonol ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau. Mae cyfarfodydd gweithredu'r gwasanaeth yn cynnwys canolbwyntio ar gynlluniau cyfathrebu ar ddechrau'r gwasanaeth. Mae tîm Ymgysylltu'r Comisiynydd yn cysylltu â darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd i sicrhau cysondeb mewn negeseuon ac ymgyrchoedd. |

**17l) Cydymffurfio â phob cais ffurfiol rhesymol gan y Panel i fynychu eu cyfarfodydd**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Presenoldeb chwarterol yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynd i holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Pennaeth Staff a swyddog allweddol y Panel er mwyn sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth amserol a pherthnasol. |
| Darparu dogfennau i'r Panel Heddlu a Throseddu yn unol â'u ceisiadau | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynd i holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Pennaeth Staff a swyddog allweddol y Panel er mwyn sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth amserol a pherthnasol.<br><br>Mae fersiwn ddrafft o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i pharatoi i hwyluso cyfathrebu ymhellach. |
| Cyswllt rheolaidd rhwng y SCHTh a'r Panel yr Heddlu a Throseddu i | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynd i holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a |

| | | |
|---|---|---|
| gefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswyddau statudol | | Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Pennaeth Staff a swyddog allweddol y Panel er mwyn sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth amserol a pherthnasol. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ffurfioli trefniadau, ar ffurf drafft i'w chymeradwyo. |

### 17m) Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Paratoi a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Panel ar lwyddiant CHTh yn cyflawni yn erbyn yr amcanion a bennir yn y Cynllun | | Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2020-2021 ar y wefan - yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac fe'i rhanwyd gyda'r Panel Heddlu a Throseddu, gyda phartneriaid ac yn gyhoeddus drwy ddatganiad i'r wasg a nifer o negeseuon cyfryngau cymdeithasol. |

### 17n) Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, gan fod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y PG hefyd

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Ymdrin â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl | | Cawsom ohebiaeth gan dri unigolyn gwahanol; cyfeiriodd dau o'r unigolion hynny at gŵyn yn erbyn y Prif Gwnstabl, ond nid oedd yn glir a darparwyd eglurhad a chyngor pellach. O ganlyniad, dim ond un gŵyn sydd wedi'i chofnodi'n ffurfiol. Mae'r gŵyn yn erbyn y Prif Gwnstabl a gynyddwyd i'r IOPC yn ymwneud â chwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl a gofnodwyd ym mis Ebrill 2021 (PCC-22042021-1) a darparodd yr IOPC eu canlyniad ym mis Gorffennaf 2021. |
| Sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith yn barod ar gyfer rolau cynyddol CHTh mewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf yr Heddlu a Throseddu 2017 | | Ni ymatebwyd i'r adolygiadau o fewn 28 diwrnod dros y misoedd diwethaf oherwydd nifer o resymau h.y. mae angen hyfforddiant parhaus ac amser ychwanegol gan y Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth ar aelod newydd o'r Staff Cymorth sy'n gweithio dros gyfnod absenoldeb mamolaeth; llwyth gwaith mawr, mae angen ystyried adolygiadau a gyflwynir yn rheolaidd y tu allan i amser a chyfathrebu pellach rhwng yr adran safonau proffesiynol (PSD), y Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth a'r Pennaeth Staff, gwyliau blynyddol dros gyfnod yr Haf ac ati a chynnydd mewn adolygiadau o'i gymharu â'r chwarter diwethaf gyda 17 wedi'u derbyn y chwarter hwn (derbyniwyd 10 Ebr-Meh). |

### 18) Rhaid i'r CHTh beidio â llesteirio annibyniaeth weithredol yr heddlu

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Datblygu ac adolygu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn flynyddol | | Mae'r adolygiad blynyddol wedi'i drefnu ar gyfer Ch4, ond gellir gwneud unrhyw newidiadau a nodwyd drwy gydol y flwyddyn, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Archwilio. |

**19) Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Trin gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data | | Fel corfforaeth yn unig, mae Swyddfa’r Comisiynydd yn ddarostyngedig i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt.<br><br>Derbyniwyd 10 cais Rhyddid Gwybodaeth y chwarter hwn.<br><br>Dim ond 3 o'r rhain oedd ceisiadau lle'r oedd y Swyddfa'r Comisiynydd yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Anfonwyd 7 i'r heddlu gyda chaniatâd y gofynnwr gan y gallent fod wedi cadw'r wybodaeth neu beidio.<br><br>Derbyniwyd 2 gais gwrthrych am wybodaeth y chwarter hwn, roedd un wedi'i gwblhau'n llawn ac ar amser. Nid oedd y cais arall yn ddilys gan nad oedd y cais yn darparu adnabyddiaeth sy'n ofyniad cyfreithiol. Er gwaethaf nifer o geisiadau gan Swyddfa’r Comisiynydd am hyn, dewisodd y sawl sy'n gwneud cais beidio â'i ddarparu felly daeth y cais yn ddi-rym.<br><br>Ni nodwyd unrhyw achosion o dorri data ac ni nodwyd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth o fewn y chwarter.<br><br>Rhoddwyd negeseuon atgoffa i'r staff am ymosodiadau gwerwydo, defnydd diogel o gyfryngau cymdeithasol a sut i adnabod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth. |

**20a) Cyflawni diogelwch cymunedol a lleihau troseddu**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Datblygu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Comisiynu a Phartneriaethau | | Nid yw'r fframwaith Comisiynu wedi'i ddiweddaru eto ar gyfer 21/22. Mae'r strategaeth Gomisiynu ar waith ar gyfer Tymor 3 sy'n disodli dogfennau blaenorol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd.<br>Cynhaliwyd cyfarfod Ch2 ym mis Medi gan ganolbwyntio ar adnewyddu'r strategaeth Rheoli Troseddwyr Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| | | (IOM) a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau a chontractau a gomisiynwyd yn y dyfodol.<br><br>Mae'r gofrestr contractau wedi'i sefydlu a'i hadolygu ar gyfer Tymor 3, ochr yn ochr â chynllun gwerthuso ac archwilio ar gyfer dyfodol yr holl wasanaethau a gomisiynir. Amlinellir cerrig milltir a phenderfyniadau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer y Comisiynydd ar gyfer 21/22.<br><br>Cynhaliodd aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLl) ymgynghoriad pwrpasol fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Heddlu a Throseddu a bydd yn cael cyfle i roi sylwadau ar y drafft yn ystod mis Hydref, ac yna mewnbwn pellach yng nghyfarfod mis Tachwedd. Bydd yr holl gysylltiadau partneriaeth, gan gynnwys rheolwyr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn rhan o'r cam ymgynghori. Cysylltodd y Cyfarwyddwr Comisiynu y Cynghorydd Polisi a Sicrwydd â gweithdai asesu llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Mae blaenoriaethau a chynllun cyflawni'r BCTLl yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.<br><br>Mae'r broses gwerthuso tendrau ar gyfer gwasanaethau newydd a sgorio ar gyfer ceisiadau am grantiau yn cynnwys y gofyniad i gysylltu â blaenoriaethau CHTh. Mae darparwyr gwasanaethau wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Gwasanaethau i'w hailalinio i flaenoriaethau unwaith y bydd Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn cael ei ddatblygu. |
| Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a lleihau troseddu | | Ariennir grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfatebol gan gyllid craidd y Comisiynydd. Cyfanswm y grant ar gyfer 21/22 yw £996,050 o gyfanswm cyllideb gomisiynu o £1.89m. Felly, mae'r Comisiynydd yn darparu tua 47% o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau. Nodir hyn yn ffurflenni'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lle rhoddir gwybod i Weinidogion am arian cyfatebol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi sicrhau codiadau o dros £600,000 ar gyfer 21/22 ar gyfer darparu gwasanaethau Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).<br><br>Cyfarfu'r Comisiynydd a'r Cyfarwyddwr Comisiynu â rheolwyr GTIA (Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac Atal) yn ystod Ch2 i gytuno ar drefniadau ariannu yn y dyfodol. Bydd cyfarfod â rheolwyr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) yn cael ei drefnu i drafod cysylltiadau rhwng cyfiawnder troseddol a threfniadau diogelwch |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymunedol. Bydd arweinydd y PDC yn cael ei wahodd i gyfarfod y BCTLl (Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol) ym mis Tachwedd. Disgwylir i Dîm Gweithredol Swyddfa'r Comisiynydd adolygu trefniadau partneriaeth ar gyfer y dyfodol.<br><br>Bodlonwyd Telerau ac Amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda'r gydymffurfiaeth wedi'i chofnodi a'i chymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer ffurflenni grant. Mae cytundebau grant a chontractau gyda darparwyr yn sicrhau bod y Telerau ac Amodau'n cael eu bodloni. Mae'r amserlen archwilio yn cynnwys gwiriadau ar gydymffurfiaeth.<br><br>Nid oes angen contract mwyach gan fod ailuno gwasanaethau Prawf gan fod darparu CA (Cyfiawnder Adferol) yn swyddogaeth statudol ar gyfer Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (GCPhEM). Felly bydd hwyluso CA i ddioddefwyr yn parhau - bydd GCPhEM yn gweithio gyda Goleudy i nodi a chyfeirio dioddefwyr yn briodol.<br>Mae is-grŵp dioddefwyr a thystion BCTLl wedi gofyn am adnewyddu hyfforddiant CA mewnol i swyddogion, gan gynnwys nifer o hyrwyddwyr CA ar draws yr Heddlu. Mae prosiect Diwedd i Ddiwedd yr Heddlu yn cynnwys ystyried y cynnig CA i ddioddefwyr. Bydd CA hefyd yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.<br><br>Cynhaliodd aelodau BCTLl (Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol) ymgynghoriad pwrpasol fel rhan o ddatblygiad Cynllun Heddlu a Throseddu a bydd yn cael cyfle i roi sylwadau ar y drafft yn ystod mis Hydref, ac yna mewnbwn pellach yng nghyfarfod mis Tachwedd. Bydd yr holl gysylltiadau partneriaeth, gan gynnwys rheolwyr PDC (Partneriaeth Diogelwch Cymunedol) yn rhan o'r cam ymgynghori. Cysylltodd y CC (Cyfarwyddwr Comisiynu) y Cynghorydd Polisi a Sicrwydd â gweithdai asesu llesiant y BGC (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus). |

## 20b) Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Amherthnasol yng Nghymru | Amherthnasol | Amherthnasol |

## 20c) Grantiau lleihau troseddu ac anhrefn

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau troseddu ac anhrefn | | Mae'r broses newydd ar gyfer penderfyniadau ariannu bellach ar waith ac mae'n cael ei gweithredu'n llwyddiannus. |
| Darparu grantiau lleihau troseddu ac anhrefn o fewn 2020/21 | | Rydym yn parhau i gefnogi mentrau a phrosiectau cymunedol drwy ein cyfleoedd grant ac yn ddiweddar rydym wedi dyfarnu cyllid i Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, i ddatblygu eu prosiect Kicks ar draws 5 ardal yn Nyfed-Powys, yn dilyn eu prosiect Seaside Kicks llwyddiannus. |
| Gwerthuso grantiau lleihau troseddu ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad | | Mae'r broses newydd ar gyfer penderfyniadau ariannu bellach ar waith ac mae'n cael ei gweithredu'n llwyddiannus. |

**20d) Cytundebau cydweithredu**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Fel y nodir yn 17f | Amherthnasol | Amherthnasol |

**20e) Cyfrifoldeb ehangach dros wella'r modd y cyflawnir cyfiawnder troseddol yn eu hardal**

| Camau Gofynnol | CAG | Diweddariad Cynnydd Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn rhoi gwerth am arian | | Mae cyfarfodydd adolygu Ch2 wedi'u trefnu ar gyfer canol mis Hydref. Cynhelir trafodaethau parhaus gyda darparwyr mewn perthynas ag effaith Covid, yn ogystal â chyfarfodydd contract rheolaidd.<br><br>Derbyniwyd adroddiadau Ch1 i gyd cyn cyfarfodydd adolygu'r contract. Mae adroddiadau Ch2 yn cael eu derbyn ar hyn o bryd yn barod ar gyfer cyfarfodydd perfformiad. Nid oes unrhyw bryderon ynghylch perfformiad ar hyn o bryd.<br><br>Mae cyfyngiadau Covid 19 yn parhau i effeithio'n sylweddol ar ymweliadau safle ffisegol. Mae darparwyr wedi cael cyswllt rheolaidd â'r CC yn ystod y pandemig. Mae archwiliadau bwrdd gwaith blynyddol o wasanaethau wedi dechrau. Mae archwiliadau deifio dwfn wedi'u trefnu ar gyfer 2021/22 yn unol â chylchoedd comisiynu a phenderfyniadau allweddol y Comisiynydd. Bydd yr archwiliad cyntaf yn dechrau ym mis Tachwedd 2022. Mae'r Comisiynydd yn parhau i ymweld â safleoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | darparwyr fel rhan o Ddiwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned lle mae'r cyfyngiadau'n caniatáu hynny.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod Ch2 ym mis Medi gan ganolbwyntio ar adnewyddu'r strategaeth Rheoli Troseddwyr Integredig (RhTI) a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau a chontractau a gomisiynwyd yn y dyfodol. |
| Cyfraniad CHTh i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan | | Mae BCTLl (Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol) Dyfed-Powys yn gweithio'n agos gyda chydlynydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i sicrhau bod blaenoriaethau ac adrodd yn unol â threfniadau Cymru Gyfan. Mae'r CC yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr Cyfiawnder Troseddol (CT) ar gyfer Comisiynwyr eraill yng Nghymru. Cytunwyd ar strwythur adrodd i sicrhau bod Dyfed-Powys yn tynnu sylw at gynnydd cadarnhaol ar weithgarwch cenedlaethol a lleol yn ogystal â meysydd pryder/risg cynyddol lle bo angen.<br><br>Roedd cyfarfod BCTLl ym mis Gorffennaf yn cynnwys ymgynghori ar ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu a chanolbwyntio ar gynllun cyflawni newydd y BCTLl. Mae is-grŵp adfer BCTLl yn parhau i gyfarfod bob 6 wythnos i adolygu cynnydd gyda Llysoedd y Goron ac Ynadon. Mae'r sefyllfa'n dal yn gadarnhaol ym Mhowys. Roedd Bwrdd mis Medi yn cynnwys treialu templed agenda newydd i gysoni'r holl adroddiadau yn erbyn Cynllun Cyflawni'r BCTLl. |
| Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol CHTh | | Bwrdd Trawsnewidiol y Gweithlu<br>Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu<br>Gwasanaethau Digidol yr Heddlu (Mae'r Comisiynydd yn edrych ar dynnu ei hun o'r Bwrdd dros y flwyddyn nesaf {dyddiedig 13 Gorffennaf 2021})<br>Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan<br>Bwrdd Adolygu Diogelu Unedig Sengl gyda Llywodraeth Cymru, lle mae'n cymryd rôl Un Swyddog Cyfrifol Cymru.<br>Bwrdd Plismona Cymru<br>Plismona yng Nghymru (Derbyniodd y Comisiynydd y gadeiryddiaeth ar gyfer y cyfarfod hwn ym mis Mehefin 2021)<br>Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel<br>Grŵp Cyfeirio Proffesiynol Cwrs Gorchymyn Strategol<br>Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Hawliau Dynol<br>Rhwydwaith Cenedlaethol Troseddau Gwledig – ar y Bwrdd Gweithredol |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol